

Papur Pawb

Pris: 40c

Medi 2007

Rhif 331



Bob a Sue Williams

Sioe Talybont Trwy Lygaid y Llywyddion

Gan na fum innau ar bwyllgor Sioe Talybont ers rhai blynyddoedd bellach, teimlais mai haws oedd rhoi fy argraffiadau o weithgareddau'r dydd heb fod yn rhagfarnlyd.

Yn sgil clwy'r traed ar genau hawdd fyddai i'r pwyllgor fod wedi cymryd camau i beidio a chynnal sioe eleni fel y gwnaeth amryw eraill, ond nid fellu y bu. Y penderfyniad oedd cario ymlaen adiolch iddynt am hwnnw.

Dim gwartheg, dim defaid a dim geifr ond eto Cae y Llew Du yn llond o bob math o ddi-ddanwch ar gyfer pawb. Roedd y dorf yn lluosog ar pres ar y giat i fyny yn sylweddol ers llynedd, y tywydd yn rhannol gyfrifol am hyn mae'n siwr.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'i hadnoddau a'i hamser i sicrhau llwyddiant y sioe. Wn i ddim sawl person a ddywedodd wrthyf

yn ystod y dydd eu bod yn hoffi dod i Sioe Talybont oherwydd y croeso a gafwyd yno ac mae hyn yn dweud y cyfan am y pwyllgor ac ymroddiad diflino ei haelodau.

Hoffwn innau ar ran y ddau ohonom ddiolch am yr anrhydedd o gael bod yn llywyddion. Cawsom ddiwrnod dedwydd, difyr a chofiadwy iawn, y swyddogion yn edrych ar ein holau fel brenhinoedd, 'VIP treatment' o'r radd flaenaf.

Yn ystod 2006-7, bum yn llywydd Cymdeithas y Gwartheg Duon ac yn sgil y swydd honno bu'n rhaid i mi fynychu tua deunaw o sioeau ledled Cymru a Lloegr hefyd. Credwch fi, mae Sioe Talybont cystal os nad gwell na llawer ohonynt, mae graen ac ôl gwaith ar bob rhan o'r cae.

Llongyfarchiadau mawr a hir oes i Sioe Talybont.

Bob a Sue Williams, Penwern



Canlyniadau Sioe Talybont tudalen 9



NEWYDD Stodin Pawb

Prynu a Gwerthu
Mwy o wybodaeth tud. 8

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Teipyddes:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL	
Parsel Henllys:	Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch	832295
Eglwysfach:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Taliesin:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Tal-y-bont:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont	832660
Is-gadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

CEREDIGION YN EISIAU GWIRFODDOLWYR

Yng Ngheredigion mae 24% o'r boblogaeth dros 65 oed.

Mae llawer yn unig ac ynysig

Mae llawer heb deulu neu theulu yn byw yn agos

Mae llawer yn methu mynd allan heb gymorth

Mae llawer heb fod yn ymwybodol o'u hawliau i fudd-daliadau.

Beth mae ein gwirfoddolwyr yn ei wneud:
Cyfeillio. Gwirfoddolwyr Gwybodaeth a Chynghori.
Gyrrwyr, ee ir Clybiau cinio,
Cynllun siopa rhwydd, Dosbarthiadau ymarfer corf.

Sut i Wirfoddoli: Cysylltwch â:

Jane Raw-Rees, Cyngor Henoed Ceredigion, Yr Hen Ysgol
Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth. 01970 615151.

E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

**A DAVIES
TRYDANOL**



Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR

ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Proffesiadol • Proffesiynol
Prydion • Personol

Martha Davis
Is-y-coed, The Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8RG Cymru
Ffôn/Ffôn 444 (0)1370 832230 afiaith@aol.com

Os am dacs neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CAPEL BETHEL TALYBONT

Mae'r capel yn chwilio am berson i lanhau'r Capel.

Telir cyflog o £10.00 yr wythnos.

Am fyw o fanylion cysylltwch a Geraint Evans Garnwen
(832473) neu Ieuan Mogan Rhos (832496)

Dyddiadur

MEDI

- 16 **Bethel** 2 W.L. Gealy
Nasareth 10 Raymond B. Davies
Rehoboth 10 Huw Roderick
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
- 17 **Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch.** Gwenallt Llwyd Ifan. Croeso i aelodau hen a newydd. 7.30, gwaelod y Neuadd Goffa
- 18 **C.Ff.I.** Cyfarfod a noson yng nghwmni Hyfforddwr Gyrru (i'w gadarnhau)
- 21 **C.Ff.I.** Noson hyrwyddo teithiau tramor
- 23 **Bethel** 6 Gweinidog (Cymundeb)
Nasareth R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol Weddi
- 25 **C.Ff.I.** Go-karts, Llwyneclyn
- 30 **Bethel** 10 Parch John Tudno Williams
Nasareth 10 Glyn Morgan, Tregaron
Rehoboth 10 Gwendoline Evans
Eglwys Dewi Sant 10 Tal-y-bont Undebol

HYDREF

- 2 **C.Ff.I.** Noson yng Nghlwb Golff Penrhos
- 5 **C.Ff.I.** Cystadleuaeth Chwaraeon Dan Do
- 7 **Bethel** Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Nicholas Bee (C) C.P.B.
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun Bendigaid
- 9 **C.Ff.I.** Ymarferion 'Steddod
- 10 **OS METS...** lansiad nos Fercher Hydref 10fed yn Ffestri Capel y Garn Bow

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi

01970 832129

07761 917235

Street am 7 o'r gloch dan arweiniad Sion Evans o Goleg y Bala

- 14 **Bethel** 10 Undebol Noddfa Bow Street. Diolchgarwch y plant
Nasareth 2 Bugail
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Cymun Bendigaid
- 15 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Catrin Dafydd. 7.30, gwaelod y Neuadd Goffa
- 18 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** AGM/Swper Cynhaeaf
- 20 **Bore Coffi** yn Neuadd y Waun, 10-12 o'r gloch. Stondinau ac ati. Yr elw at Hosbis Ysbyty Durtlang, Mizoram, Gogledd Ddwyrain India.
- 21 **Bethel** 10 Mr Walford Gealy (Cymundeb)
Nasareth 10 Walford L. Gealy - B
Rehoboth 10 Ifan Mason Davies
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
- 23 **C.Ff.I.**
- 28 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 R.G. Lewis (Bethel)
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol Weddi

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Yr cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Ceri, Helen a Dafydd Saer. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Mair 832027, a Beryl 832344 gyda Ceri'n dylunio (stiwidio@ceri-talybont.com). Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 5 Hydref a bydd y papur ar werth dydd Gwener 12 Hydref.

Croeso i Dal-y-bont

Estynnwn groeso cynnes i Tanwen Haf a'i dyweddi Malcolm Dines a symudodd i 1 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont, ar ddiwedd Gorffennaf. Mae Tanwen yn hanu o ardal Porthmadog ac yn gweithio fel Swyddog Dylunio i Gyngor Llyfrau Cymru. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Genedigaeth wyrion

Bu sawl teulu yn dathlu genedigaeth wŷyr neu wyres fach dros yr haf, a braf yw cael eu llongyfarch i gyd: Ellen a Iolo ap Gwynn, Garreg Wen, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hwyres Lucy Eirwen, merch Rhys a Hayley a chwaer fach Billy; Jill a Joe Wareing, Braichgarw, ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf, Isaac Joseph; Mair a David Jenkins, Ynyseidiol, Ffwrnais, a Gill a Glyn Saunders Jones, Y Fagwyr, ar enedigaeth eu hwyres Efa Fflur, merch Catrin a Siôn – wyres gyntaf i Mair a David – a hefyd i Mr a Mrs Jenkins, Penrhwyngwyn, sy'n hen-nain a hen-daïd i Efa; Beti Wyn a Brian Davies, Rhos, Taliesin, ar enedigaeth eu hwyres Beca Angharad, merch Siwan ac Ian, a chwaer fach Ifan; ar 30 Awst, daeth Glyn a Gill yn nain a thaid am y pumed tro, pan aned mab (Gruff Glyn Saunders-Jones) i Owain a Karen, brawd bach i Elli.

Cartrefi Newydd

Pob hapusrwydd i Gerwyn a Non Jones sydd wedi symud i fyw i Ddôl Pistyll, ac i Dafydd a Rosie sydd wedi symud i'w hen gartref hwy, sef Frondeg, 1 Penrhwi, Tal-y-bont. Dymuniadau gorau i chi i gyd.

Dathlu'r Deugain

Llongyfarchiadau i Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl, ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeugain oed yn ddiweddar.

Brysiwch Wella

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont, a gafodd lawdriniaeth yn Ysbysty Gobowen ystod yr haf.

Dymuna Glenys Edwards ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion a'r cyfeillgarwch a ddangoswyd iddi yn ystod yr wythnosau ddiwethaf.



Pobl a Phethe

Priodas

Ar ddiwrnod prin o dywydd braf ym mis Awst eleni priodwyd Elaine Hughes, Maes y Felin a Michael Rowlands, Machynlleth, gynt o Dre'rddol. Cynhaliwyd y seremoni a'r wledd yng ngwesty Llety Parc. Aeth y ddau am fis mel yn Iwerddon ac yna am wyliau teulu gyda'r plant, Kayleigh, Lowri a Carwyn, i Florida. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.



Priodas

Ar ddydd sadwrn, Mehefin 2ail priodwyd Louise Powell a Paul James, Ffwrnais. Y morynion oedd Darah, Emily, Grace a Sophie a'r gwas oedd Mr. John Walsh, gyda Peter, Andy a Steve yn ystlyswyr. Cynhaliwyd y wledd yng ngwesty Tynycornel, Tal-y-llyn a threuliodd y ddau eu mis mel ar ynysoedd Groeg.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Sioned Menai, merch hynaf Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri, Tal-y-bont, ar ei dyweddiad gydag Alun Tobias o Gapel Dewi, Caerfyrddin.

Croeso

Croeso i David a Lisa Burns ar ddau fachgen Conner a Max, sydd wedi ymgartrefu yn 6 Maes Clettwr, Tre'r Ddol yr hen gartref teuluol.

Graddio

Llongyfarchiadau i Caryl Lewis, Maes Gwyn ar raddio o Goleg y Drindod a pob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol y Wern, Caerdydd. Llongyfarchiadau hefyd i Andrew Birch sydd wedi graddio o Brif Ysgol Lerpwl a Chris Nicholls wedi graddio o Brif Ysgol Wolverhampton.

Gwellad Buan

Dymunwn wellad buan i Mrs Knight, 1 Cae Bitffald sydd yn Ysbyty Bronglais.

Trafeilio ar draws prydain

Pob lwc i Ben Fitzpatrick 7 Maes Clettwr a'i frawd Alex sydd a her i drafeilio ar draws prydain o Land's End i John O'Groats ar gefn beic modur, ond ar y ffordd maen nhw yn dringo Y Wyddfa, Scafell Pike a Ben Nevis. Maent yn gwneud yr her yma er mwyn codi arian at Gancer ac at Acorn Children's Hospice Trust. Os ydych am ei cefnogi gallwch gysylltu a nhw ar www.longwayup.btik.com

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r Doctor a Mrs Gareth Hughes, Coetmor, a'r Doctor a Mrs Gwyn Penrhyn Jones, Garreg Lwyd ar achlysur dathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst yr un diwrnod. Hefyd llongyfarchiadau i Mr a Mrs Douglas Jones, Brooklyn ar ddathlu eu priodas ddeiamwnt ym mis Awst.

Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Enid Evans, Bontgoch yn ei swydd newydd fel Cynorthwydd Cegin yn Ysgol Rhydyppennau.

Hefyd i Glenda Jenkins, Ffwrnais a ddechreuodd ei swydd newydd fel Cynorthwydd Dosbarth yn Ysgol Talybont.

18 oed

Llongyfarchiadau i Dawn James, 4 Maes Clettwr sydd yn dathlu ei phenblwydd 18 oed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Glenys a Jack Evans, Llwynsguborwen ar enedigaeth eu hŵyr bach cyntaf sef Mabon, mab eu merch Carwen a'i gŵr Dylan ym Machynlleth, a brawd bach i Beca.

Llongyfarchiadau i Vicky a John, Penaber ar enedigaeth merch fach, Ellie, chwaer fach i Steffan ac wyres gyntaf i Haydn a Phyllis Ellis, Manteg, Taliesin.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gyda Mrs Valma Jones, Wern ar farwolaeth ei chwaer-yng-nghyfraith, Mererid, gwraig John ei brawd, ym Meisgyn. Estynnwn ein cydymdeimlad ag Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar golli ei modryb, Mrs Rita Jenkins, Tegfan, Tal-y-bont.

Diolch

Dymuna Pat a Frank Spice, Nant y Nôd gynt, ddiolch o galon i'w cymdogion a'r ffrindiau oll am y cyfeillgarwch, caredigrwydd a'r gefnogaeth a gawsant yn ystod y 30 mlynedd y buont yn byw yn Nant y Nôd. Trist iawn oedd ganddynt ffarfelio â Chymru, ond maent yn gobeithio dod yn ôl am dro rywbyrd.

Torri Braich

Bu Barbara Madden, 13 Maes-y-deri, Tal-y-bont yn anffodus a thorri ei braich yn ddiweddar. Gobeithio y bydd yn well yn fuan.

Diolch

Dymuna Mary Ellis, Cartref Abermad, Lerry View gynt, a'r teulu ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad o golli ei gŵr. Diolch i'r Meddygon yn Borth, nyrsys lleol, gofaluwr yn y cartre, dosbarthwyr pryd ar glyd, cymdogion, Ysbyty Bronglais a Chartre Blaen-nos. Diolch am y cyfraniadau i Feddygfa Borth, y Parch Brian Thomas, Mrs Elisabeth James, yr organyddes ac aelodau Eglwys Dewi Sant a'r ymgymerwr Selwyn Evans, Penrhyn-coch, am eu gwasanaeth.

Pobl a Phethe

Hen Stejars

Penblwydd hapus arbennig i Brian Davies, Rhos Taliesin a Harry James, Llannerch sydd yn dathlu'r 60 ar ddechrau mis Medi.

Profedigaeth

Bu farw Gladys Eiddwen Sears yn Ysbyty Bronglais yn 91 oed. Yn enedigol o Bencae, Taliesin, cafodd ei haddysg yn ysgol Llangynfelyn a mynychai Eglwys y Plwyf gyda gweddill y teulu. Aeth i nyrsio i Durban yn Ne Affrica ac yno y cyfarfodd a John ei gwr. Aethant wedyn i Lundain i redeg busnes am flynyddoedd, cyn dychwelyd i'w hen gynefin ym Mhencae. Estynnwn ein cydymdeimlad a John ei gwr hefyd a David y mab, ar teulu i gyd.

Croeso i'n Plith

Dymunwn groesawu Mared Llwyd a Elgan Griffiths i'w cartef newydd yn y Gorlan, Taliesin. Athrawes ysgol Gynradd yw Mared a mae gan Elgan fusnes Dylinio Graffeg ei hun ac yn gweithio o gartref.

Bedydd

Ar ddydd Sul Awst 19eg yn Rehoboth, bedyddiwyd Edward Ellis Rowlands, mab Robert a Corinna ac wyr cyntaf Roy a Lisa, Tynohir gan ei cyn-weinidog y Parchedig Robert Jones. Y fam fedydd oedd Sarah chwaer robert a David Mills yn Dad. Daw teulu Corinna o Coote Hill, County Cavan yn Iwerddon ac wedi mwynhau y gwasanaeth yn fawr iawn a chael clywed y Gymraeg gan bod rhai o'r teulu yn siarad Gaeleg. Roedd Corinna wedi bod ar gwrs Wlpan yng Ngholeg Llambod dros yr haf eleni.

Pob Lwc

i Robin Fuller, Pandy, Ffwrnais yn ei swydd newydd gyda CRANC yng Nghaerdydd. Mae e'n beiriannwr dybio sain.

Llongyfarchiadau

i Bob a Jacqui Relph, Bryn Dolen, Eglwysfach sydd wedi cael eu hail ŵyr (Frank) yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

i Mrs Barbara Adams, Rose Cottage, Glandyfi sydd wedi colli ei chwaer.

Sefydliad y Merched

Eglwysfach

Mi oedd e'n braf i weld ein gilydd eto ar ôl y gwyliau ac i groesawu 2 aelod o gangen Taliesin i siarad am y cyfarfod yn Neuadd Albert, Llundain. Wedyn fe glywon ni Alison Harwood o'r RNID yn siarad am ei gwaith gyda prosiect *Hear to Help*, sef prosiect gwirfoddol yn y gymuned.

Llwyddiant

Bu'r haf yn dymor canlyniadau'r arholiadau TGAU a lefel A, gyda llu o ieuenctid yr ardal yn profi llwyddiant. Mae nifer ohonynt yn dychwelyd i'r chweched dosbarth, a rhai wedi penderfynu mynd i goleg. Dymuniadau gorau i chi gyd.

Cerddorion o Fry

Llongyfarchiadau i nifer o blant yr ardal ar basio arholiadau cerdd yn ddiweddar. Yn eu plith mae Seren Powell Taylor, Elen Ebenezerac Elen Jones ar y fflwr a Hefin Evans ar y trwmped.

Cafwyd gwled o gyngerdd yn y Neuadd Fawr ar 7 Medi yng nghwmni Catrin Finch, y delynores a Rhys Taylor y clarinetydd. Yn cyd-chwarae a'r ddau gerddor oedd Yasmin Eva, Talybont ar y sacsoffôn a Tommy Pearson Tre'r Ddôl ar y trombôn sy'n aelodau o fand mawr Brian Sansbury.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mared a Simon, Morlais House ar enedigaeth mab a brawd bach i Gwernan.



Penplwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Kathleen Richards (Kit) Y Bryn, Talybont, ar ei phenblwydd yn 80 ar 6ed Fedi. Bu Kit yn gofalu am y Swyddfa'r Post yn Nhalybont am 46 mlynedd cyn ymdeol yn Ionawr 1990, ac y mae yn dal â diddordeb mawr yng ngweithgareddau'r ardal.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Kayleigh Hughes, Maes y Felin ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

Ymdeol

Ymdeoliad hapus i Dai James, Bryn Ceulan, Talybont.

Diolch

Dymuna Kathleen ddiolch i ffrindiau a theulu am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei dathliad arbennig.

Ar y Brig

Dyfarnwyd Rhys Richards, Clap y Cripiau, sy'n fyfyrwr yng Ngholeg Amaethyddol Gelli Aur, yn fyfyrwr y flwyddyn ar ei gwrs eleni. Llongyfarchiadau mawr i ti Rhys.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. Geraint Thomas a'r teulu, cyn brifathro Ysgol Gynradd Tal-y-bont, ar golli ei wraig Mrs. Margaret Thomas yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Dilwyn Griffiths, mab Mrs Curigwen Griffiths, Glan Leri ar ôl ei ddamwain erchyll. Mae ei ffrindiau i gyd yn gyrru eu cyfarchion iddo.

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Gwobr Impetus

Yn dilyn gwaith cloddiw gan Mrs Ann Daniell, Ms Wendy Foulkes a phlant Cyfnod Allweddol 2, mae'r ysgol i gael ei gwobrwyo am y prosiect "Fi yw Fi", oedd yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Roedd y gwaith wedi ffocysu ar hawliau plant, gan edrych yn fanylach ar fwlio a gwrth fwlio, gwneud penderfyniadau anodd, a bod yn ddewr, a chafodd y plant gyfleuon i gyfleu eu syniadau drwy ddrama, drwy bosteri a thrwy drafod. Cafodd yr ysgol ei dewis i fynychu cyflwyniad o'r gwobrau yng Ngardeydd, ac hefyd i fod yn un o'r ddau brosiect fydd yn cynrhychioli Cymru mewn seremoni wobrwyo yn Llundain. Mae hyn yn cyflawniad arbennig i'r ysgol ac rydym am ganmol Mrs Daniell, Ms Foulkes a'r plant i gyd am fod mor llwyddiannus.

Mabolgampau Ysgol a Chylch

Cyn y gwyliau haf, cafwyd cryn hwyl yn cystadlu a pherfformio. Yn chwaraeon yr ysgol, buom yn ffodus iawn i gael diwrnod sych a heulog, a chafwyd llawer o hwyl wrth gystadlu yn rhedeg, neidio, taflu a mwynhau. Er yr holl gystadlu brwd, Clettwr fu'n fuddugol, a derbyniodd y capteiniaid, Rory Myers Cann, Francesca Boorman ac Emrys Rose, y dlws hyfryd gan Mr Grant Mayhew, un o'r llywodraethwyr.

Bu nifer o'r plant hefyd yn cystadlu yn mabolgampau'r cylch, ym Mlaendolau, ac wedi trio eu gorau glas, a chael llawer o hwyl unwaith eto, aeth pawb adref yn flinedig iawn.



Penblwydd Gwersyll yr Urdd

Braf iawn oedd cael mwynhau cwmni diddan disgyblion a staff Talybont ar y daith i Langrannog, i ddathlu penblwydd Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Cafwyd hwyl wrth ymuno gyda disgyblion ar draws Ceredigion yn y Jambori yn y neuadd chwaraeon, dan arweiniad hwyliog a dawnus Gwenda Owen. Cafwyd picnic a dawnsio, gemau a ras falwms, ac efallai mai un o uchafbwyntiau y daith oedd cael sgwrs gan un o'r cyn-wersyllwyr yn disgrifio ei phrofiadau hi yn dod i'r gwersyll ac aros mewn cabanau pren bychain. Er bod y lle wedi newid llawer dros y blynyddoedd, mae'r un hwyl ac asbri i'w gael yno o hyd.

Diwrnod y Celfyddydau Gweledol

Cafodd plant yr ysgol gyfan lawer iawn o fwynhad wedi teithio i Ganolfan y Celfyddydau un bore Llun. Bu'r disgyblion wrthi drwy'r dydd yn creu ffilmiau animeiddio cyffrous, yn datblygu lluniau du a gwyn yn y labordy, yn creu crochenwaith a phrintio sgrin.

Gwersi Beicio

Llongyfarchiadau mawr i blant blynyddoedd 5 a 6 ar fod yn llwyddiannus ar eu harholiad beicio. Ar ol rhai wythnosau o hyfforddiant dwys dan ofal Mr Malcolm Charlton, maent i gyd yn awr yn barod o wynebu'r ffordd fawr – yn wybodus a dewr! Da iawn chi!

Folly Farm yn y Glaw

Yn anffodus, dewiswyd trip ysgol i Folly Farm ar ddiwrnod pan y gwnaeth bistyllio i lawr yn ddi baid o fore gwyn tan nos. Yn ffodus, nid oedd rhaid cerdded yno – aethpwyd mewn bws sych. Yn anffodus nid oedd dillad cadw'n sych gan yr holl blant. Yn ffodus, roedd y staff wedi dod a dillad addas ar eu cyfer. Yn anffodus, oherwydd y glaw, roedd hi'n amhosibl mynd o amgylch y gweithgareddau allanol yn Folly Farm. Yn ffodus, mae llawer o weithgareddau dan do yno. Yn anffodus, fe aeth yr amser yno yn hynod o gyflym. Yn ffodus, fe wnaeth pawb fwynhau. Yn anffodus, roedd hi'n dal i fwrw glaw ar y ffordd yn ol. Yn ffodus, fe stopiodd fwrw glaw ym Mlaenplwyf, ac fe gyrhaeddodd pawb adref yn sych, diogel a blinedig.



Action Earth

Diolch yn fawr i rieni a chyfeillion yr ysgol a ddaeth i helpu i ddatblygu y pwll ar ardal gyfagos, yn dilyn y derbynriad o grant gan sefydliad Action Earth. Edrychir ymlaen pan fydd y planhigion i gyd wedi sefydlu, a'r ardal gorsiog wedi cryfhau, a bydd yn le delfrydol i weld anifeiliaid gwyllt yn eu cynefin.



Picnic Masnach Deg

Fel rhan o waith yr ysgol i sicrhau ein bod yn ysgol Eco cynhaliwyd picnic Masnach Deg, lle roedd y disgyblion yn cael cyfle i flasau a thrio gwahanol gynnyrch Masnach Deg. Cynhaliwyd y picnic tu allan y caban pren newydd sydd wedi ei godi ar dir yr ysgol, ac er i'r glaw darfu ychydig ar y mwynhad, cafwyd pawb hwyl, yn enwedig wrth fwyta y Geobars!

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating
Pristau Cymharol
Gostyngiad i Bensiynwyr
Yswiriant Ewrop
Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282624 / 07773978352

Argyfwng pwyllgor rheoli'r Neuadd Goffa Tal-y-bont

Ar ôl seibiant yr haf bydd pwyllgor rheoli'r neuadd yn ail ymgynnwll nos Fercher, Medi 12fed am 8 o'r gloch yng ngwaelod y neuadd. Mae'r ddau fis diwethaf wedi bod yn gymharol dawel yn y neuadd ond mae rhai, fel y clwb pêl-droed, wedi dechrau ar eu tymor ac fe fydd eraill yn dod yn ôl yn ystod mis Medi.

Mae'r pwyllgor yn dal i edrych am ysgrifenydd/es. Oes yna rywun yn barod i roi ychydig oriau'r mis i helpu i gadw'r neuadd ar agor? Mae'n adnodd pwysig i'r pentref, yn fan cyfarfod i dros ddwsin o fudiadau a rhai, fel y merched dawnsio disco, wedi dod a thipyn o glod i'r pentref yn y misoedd diwethaf.

Os ydych yn teimlo'n barod i gymeryd y swydd yma ymlaen dowch i'r neuadd ar Fedi'r 12fed.

Eglwys Elerch

Yn ystod yr Haf bu Helen Carn o Ddyfnaint yn ymweld ag Eglwys Elerch yn ngwmni ei pherthynas Cheryl Griffiths, Tal-y-bont. Mae Cheryl a Helen yn ddisgynyddion i Jane Elizabeth Hughes, Aberllolyn, ail wraig William Cobb Gilbertson, Dolclettwr, Llancynfelyn. Roedd eu merch Jane Elizabeth a briododd John Maurice Davies yn 1838, ac a dreuliodd eu bywyd priodasol yn Penpompre Hall yn Nhal-y-bont, yn hen, hen fam-gu i Helen a Cheryl. Yn y llun gwelir Helen a Cheryl yn sefyll yn ymyl cofeb Lewis Gilbertson (1814-1896), pedwerydd mab William Cobb Gilbertson, sylfaenydd Eglwys Elerch, a hen, hen ewythr i Helen a Cheryl. Byddai Helen yn falch iawn i glywed gan berthnasau eraill o



Helen Carn (chwith) gyda Cheryl Griffiths yn Eglwys Elerch

ardal Papur Pawb a gellir cysylltu â hi yn 16, Barton Meadow Road, High Bickington, Umberleigh, Devon, EX37 9AN, neu ffonio 01769-560709.



Y Lolfa'n Ffarwelio ac yn Croesawu

Wrth lansio Cestyll yn y Cymylau, nofel newydd Mihangel Morgan, yn yr Orendy cafodd Y Lolfa gyfle i ffarwelio a Mared Roberts, fydd yn gadael Y Lolfa ar ôl saith mlynedd fel golygydd. Bydd Mared yn gadael Talybont ac yn symud i Gaerdydd gyda'i theulu ifanc. Meinir Wyn Edwards o Landre sydd wedi camu i'w sgidiau. Cyn gweithio i'r Lolfa roedd Meinir yn athrawes yn Ysgol Rhydypennau, ac mae eisoes wedi ysgrifennu sawl llyfr ar gyfer plant. Yn y llun gwelir Mared, Mihangel a Meinir yn ystod lansiad Cestyll yn y Cymylau yn yr Orendy.

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Oherwydd amgylchiadau anorfod ni allai Cadeirydd newydd y Cyngor fod yn bresennol i arwain cyfarfodydd diwedd Mehefin a Gorffennaf. Anfonwyd cyfarchion am wellhad buan i'r Cyng. Glenys Edwards yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn ystod y cyfnod yma. Dirprwywyd yng nghyngor Mehefin gan Cyng. Ellen ap Gwynn a gan yr is-Gadeirydd, Cyng. Nest Jenkins yng nghyngor Gorffennaf.

Cysyllwyd â swyddog yr Asiantaeth Cefnffyrdd i'w hysbysu fod perchennog y tir angenrheidiol ar gyfer creu palmant i gyfeiriad y fynwent yn barod iawn i drafod gwerthiant gyda hwy yn y gobaith y rhoddir mwy o flaenoriaeth i'w cynlluniau.

Wedi pymtheg mis o gysylltu â'r Adran Priffyrdd gosodwyd plac newydd yn dwyn yr enw Tal-y-bont ger Gwynfa.

Ddechrau Mehefin anfonwyd at y Prif Weinidog a'r Aelod Seneddol i geisio'u cefnogaeth i'r Mesur Cymunedau Cynladwy fyddai gerbron y Senedd yn ystod y mis. Derbyniwyd gwybodaeth yn ddiweddar fod y Mesur wedi'i basio gyda mwyafrif llethol ac fe'i cyflwynir gerbron Tŷ'r Arglwyddi'n fuan.

Yn dilyn y *Rave* gynhaliwyd ar Esgair Hir ger Bwlch-y-garreg dros wyl banc ddiwedd Mai gan achosi tagfeydd di-ben-draw ar y ffyrdd sy'n arwain yno cysylltwyd â'r Heddlu i gwyno am drafferthion teithio o'r herwydd heibio'r safle. Ymatebwyd ar ran yr Heddlu gan yr Arolygydd Greg Williams gan egluro fod nifer ohonynt wedi bod yno'n cadw llygad a rhai wedi'u harestio am wahanol resymau. Yn ychwanegol bu hofrennydd yr Heddlu'n arolygu o'r awyr am gyfnod yno. Yn ychwanegol eglurwyd bod cyfrinachedd trefniadau'r *Rave* a'r man diarffordd yn ogystal â'r nifer lluosog fynychodd y digwyddiad wedi bod yn anodd iawn i'w blismona gyda'r adnoddau oedd wrth law gan yr Heddlu.

Yng Nghyngor diwedd Gorffennaf, cafwyd presenoldeb yr Heddwes Hefin Jones. Bu yntau'n amlinellu syniadau fyddai'n werth eu hystyried gydag amryw o fudiadau a Chynghorau er mwyn ceisio atal casgliad tebyg yn y dyfodol gan bwysleisio hefyd ar i'r cyhoedd gadw golwg manwl am unrhyw arwyddion amheus neu gynnydd mewn cerbydau ar y ffyrdd gwledig am gyfnod.

Cynrychiolir y Cyngor yma yng Nghynhadledd flynyddol Un Llais Cymru fis Hydref gan y Cyng. Glenys Edwards a Nest Jenkins.

Yng Nghyngor Mehefin darllenwyd llythyr gan y Cadeirydd oddi wrth y clerc yn mynegi ei fwriad i ymddeol wedi cyfnod o ddeunaw mlynedd ddiwedd Medi eleni. Y mae trefniadau ar gyfer penodi olynnydd iddo yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Nid yw Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn teimlo bod angen arwyddion ar ffordd Pencwm i Dal-y-bont gan na allant dderbyn bod unrhyw rannau ohoni'n teilyngu arwyddion rhybuddio. Cysylltir â pherchennog y ganolfan farchogaeth yn Lletyllwyd i awgrymu y gallai ef osod arwyddion perthnasol i farchogaeth ceffylau ar y ffordd yma.

Yn ystod y ddeufis diwethaf y mae'r ceisiadau cynllunio canlynol wedi'u caniatáu: newid defnydd adeilad i uned gwyliau yn Tynycae, estyniad ac allanfa dân i'r Lolfa, codi tŷ ger Aldebaran, Bont-goch, estyniad i Brynawelon a Mynydd Gorddu a chreu ffordd newydd tuag at Bwlchyddwyallt.

Yn dilyn cwynion i Dŵr Cymru fis Hydref diwethaf ar ran trigolion Pantycalch a Heol James i dynnu sylw at gyflwr gwael y ffordd gwelwyd yn ddiweddar bod contractwyr ar ran Dŵr Cymru wedi rhoi wyneb newydd o darmac arni a deallir bod hyn yn dderbyniol iawn gan y trigolion.

Wedi dwy flynedd o ymgyrchu trwy ohebiaeth gydag Adran Trafnidiaeth y Cyngor Sir gan fod arwydd arhosfan bysiau wedi'i osod ger Penlôn gan fod rhai gyrwyr bysiau wedi bod yn amharod iawn i aros yno pan fo teithwyr yn dod yn ôl o'r dref. Ail ddechreuir â chynghorau'r Cyngor wedi toriad dros yr haf ar nos Lun, pedwerydd ar hugain o Fedi.

Goronwy Jones



Dawnsio Dawnus

Yn dilyn llwyddiant tîm dawnsio disgo yn Eisteddfod yr Urdd aeth y merched heini ymlaen i Genedlaethol yn Sir Fflint i gipio'r wobr gyntaf yno hefyd. Ychwanegodd Seren Powell-Taylor a Niambh O'Brien at y llwyddiant trwy gipio'r ail wobr yn y gystadleuaeth i barau. Rydych chi'n Brill!

Swper Blasus

Daeth criw da heibio i'r Neuadd Goffa am swper blasus yn gynnar, min nos, nos Iau 19 o Orffennaf. Roedd yn ddiwrnod olaf ond un y tymor ysgol felly daeth plant cyffrous a rhieni blinedig yn falch bod swper parod ar gael iddynt. Wrth gwrs roedd rhaid talu am blatiad o gish neu bitsa ac amrywiaeth o salads i ryfeddu arnynt. Roedd yn noson hwyllog o gymdeithasu a chwrrdd ac ambell deulu newydd i'r pentref. Diolch i pawb am baratoi y bwyd blasus ac i'r rhai a droiodd i mewn a thalu'n hael am y bwyd. Ymgyrch gan aelodau Bethel oedd hwn i godi arian at Apel Darfur ac fe godwyd £ 425.00.



Cwis Llyfrau Ysgol Talybont

Cafodd aelodau o dîm Cwis Llyfrau Cymru gyfle euraidd yn ystod y gystadleuaeth eleni. Yn y llun mae Jenô, Lois, Elen, Elana Gweno wrthi yn holi'r awdures enwog Jaqueline Wilson.

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**

Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519

Agor Gardd Cylch Meithrin Talybont

Agorwyd Gardd Newydd Cylch Meithrin Talybont ar nos Fercher Gorffennaf 4ydd. Daeth nifer helaeth o blant, aelodau y Cylch, rhieni a ffrindiau i'r noson agoriadol. Roedd dros gant o bobl yno yn weld holl waith caled y deunaw mis blaenorol. Agorwyd yr ardd gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a diolchodd hi i Staff y Cylch am eu gwaith arbennig o dda yn derbyn Adroddiad ESTYN canmoladwy iawn a safon Cylch Rhagorol y Mudiad Ysgolion Meithrin.

Rhoddodd Emily Bradley, sy'n mynychu'r Cylch, dusw o flodau i Ellen ap Gwynn.

Bu lawer o rieni a ffrindiau'n gweithio'n galed iawn yn paentio, garddio ac yn adeiladu fel bod yr ardd yn le saff a deniadol i'r plant. Rhaid llongyfarch Shân Evans, Anwen Southgate a Debbie Benjamin, Staff y Cylch, am gynllunio a chydlyni'r holl waith. Mae'r ardd yn estyniad rhagorol i'r Tŷ Sbri ac mae'n rhoi cyfle arbennig i'r plant bach chwarae a dysgu mewn ffordd hwylus.

Codwyd £500 ar y noson drwy'r barbiciw, raffl, stondinau a gemau amrywiol.



Miss Mary Elwedd Jenkins

Daeth cynulleidfâ deilwng ynghyd dydd Iau, Mehefin 21ain i wasanaeth coffa Miss Mary Elwedd Jenkins, Gaerwen, Tal-y-bont yn Eglwys Nasareth, Tal-y-bont.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei gweinidog, Y Parch Wyn Morris, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Elwyn Pryse, Parch W.J. Edwards a'r Parch Dewi Roberts, Castellnewydd Emlyn. Talwyd teyrnged iddi gan ei chyn-weinidog, y Parch Elwyn Pryse. Cyfeiriodd at ei chymeriad cywir, ei ffyddlondeb i'r cysegr yn Nasareth a'i gofal tyner am ei rhiant dros y blynyddoedd. Perthynai i un o deuluoedd hynaf ac enwocaf y fro, sef teulu Cerrigcarannau a Neuadd-yr-Ynys. Ni fu ymhell o'i milltir sgwâr, carai ei bro yn angerddol, ei hiaith a'i diwylliant, a chefnogai hyd ei gallu bob achos da a phob gweithgaredd yn Nhal-y-bont a'r cylch.

Y prif alarwyr oedd Mr a Mrs Bennett Jenkins (brawd a chwaer-yng-nghyfraith); Mr Hywel Jenkins (brawd), Mr a Mrs John Tucker (chwaer a brawd-yng-nghyfraith), Mrs Gwen Roberts (chwaer), Dilwyn (nai) ac Eirlys Jenkins, Tegwen James (nith), David Jenkins (nai), Owen Jenkins (nai), William (nai) ac Olwen Jenkins, Eurwyn a Nest (nith) Jones, Stephen (nai) a Jill Tucker, Martin Roberts (nai), Dewi Roberts (nai), Mererid (nith) ac Athanasios, Caryl, Eifion a Geraint (gor-nith a gor-neiaint). Cyfeiriwyd at absenoldeb Mrs Catherine Jenkins, Gwedd Ynys, Taliesin a'r Parch Thomas Roberts, Caerdydd, oherwydd gwaeledd. Y cludwyr oedd Mri. David Jenkins, William Jenkins, Stephen Tucker a Martin Roberts.

Rhoddwyd blodau gan y teulu a derbyniwyd rhoddion tuag at Gartref Tregerddan lle cafodd Elwedd ofal tyner gan y Matron a'r gofalwyr i gyd yn ystod ei blynyddoedd olaf.

Gwen Roberts (Caerdydd)

Treialon Cŵn Defaid

Cynhaliwyd y treialon eleni ar ddydd Mercher, Awst 1af yn Llety Ifan Hen drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Emyr Davies. Roedd y tywydd gwael drwy Fehefin a Gorffennaf wedi golygu dileu nifer o dreialon ond penderfynodd pwyllgor Tâl-y-bont fwrw ymlaen ac fe'u gwobrwyyd gyda diwrnod heulog braf. Ond golygodd y tywydd braf hefyd fod rhai o'r cystadleuwyr arferol wedi aros adref i wneud silwair. Ac eto gyda threialon ym Machynlleth a Phennal ar y diwrnod gwelwyd rhai wynebau newydd o'r gogledd.

Cafwyd y rhediad cyntaf yn fuan wedi hanner awr wedi saith y bore a chwblhawyd y treialon ychydig wedi wyth o'r gloch yr hwyr gyda chyfanswm o 130 o rediadau. Ar ddiwedd y dydd diolchodd y cadeirydd, Mr Dilwyn Evans, Tynant i deulu Llety Ifan Hen am y cae a'r defaid i'r treialon, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth ac i'r stiwardiaid am eu gwaith ac yn enwedig i'r beirniad, Mr Ieuan Jones, Penbwlch, Rhydyfelin a gafodd ddiwrnod hir wrth ei waith. Yna cyflwynodd y llywyddion, Mr a Mrs Ifor Mason, Bryngwyn Mawr, a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth dros nifer o flynyddoedd ac yna eu gwahodd i gyflwyno'r gwobrau.

Enillydd pencampwriaeth y dydd a'r cawg rhosynnau er cof am Richard Edwards, Lletyllwyd oedd Rona Davies o Lamedd gyda'i gast Rose, un pwynt ar y blaen i Aled Jarman a Gwen o Lanbrynmair. Rona Davies a Rose hefyd enillodd y cwpan rhoddedig gan y ddiweddar Mrs Iona Rowlands er cof am ei brawd Evan Hopkins. Enillydd y cwpan, rhoddedig gan y diweddar Ken Jones er cof am D.J. Williams, Cynnullmawr oedd Mr Evan Evans o Dregaron gyda'i gi Moss.

Yn hwyr y prynhawn cynhaliwyd cystadlaethau cneifio ond unwaith eto cafodd y tywydd braf effaith ar nifer y cystadleuwyr. Beirniadwyd y cystadlaethau yma gan y llywydd, Mr Ifor Mason. Enillwyd y dosbarth cneifio â pheiriant gan y cadeirydd, Dilwyn Evans gyda'i feibion Rhydian ac Elgan yn rhannu yr ail wobwr. Enillwyd y ddau ddsbarth i ffermwyr ifanc gan Mason Adams o Seland Newydd gyda Elgan Evans yn ail a Rhydian Evans yn drydydd yn y dosbarth i gystadleuwyr dan 26 oed, a Sion Evans, Neuadd Fawr yn ail i gystadleuwyr dan 21 oed. Ken Evans, Coedgruffydd enillodd y dosbarth i gneifwyr gyda gwellau.

Ar ddiwedd y dydd roedd pawb yn gytún ein bod wedi cael diwrnod llwyddiannus eleni eto a'r penderfyniad i fynd ymlaen a'r treialon wedi ei gyfiawnhau. Roedd y teimladau hyn yn fwy fyth ddau ddiwrnod yn ddiweddarach pan ddaeth y newydd am y clwy traed a'r genau a'r gorchymyn i ohirio pob gweithgaredd o'r fath.

Gwasanaeth newydd i Bapur Pawb

Stondin Pawb

Gwerthu a phrynu heb adael y gadair esmwyth.

Oes gennych chi feic, torrwr gwair, hen recordiau Tecwyn Ifan a dillad plant yr ydych chi am eu gwerthu? Oes, ond ddim am fynd i lawer o drafferth? Neu efallai eich bod chi yn chwilio am feic neu lyfr prin ac am brynu heb orfod talu am gostau postio ac ati? Dyma'ch cyfle!

Bydd **Stondin Pawb** yn golofn fisol fydd yn rhestru eitemau ar werth a phethe mae pobol yn chwilio amdanynt. Gallan nhw fod yn bethe bob dydd neu'n hen a phrin - *ond cewch chi ddim gwerthu nain na taid ...*

Ar werth y mis hwn
(Enghraifft yn unig!)

Deg gwydd dew
ffoniwch 01234 567891

Pump tarw du
e bostiwch pawb@stondin.com

Saith llyfr cyffredin
galwch yn y garej

Yn eisiau y mis hwn
(Enghraifft yn unig!)

Deiet sy'n gweithio
ffoniwch 01987 554321

Tampolin solet
e bostiwch neb@papur.com

Hen bapurau newydd
galwch yn y neuadd

Felly os oes angen clirio'r atig a gwaredu hen drugareddau rhowch nhw ar **Stondin Pawb**. Dyw e'n costi dim i chi a'r unig beth sydd angen ei wneud yw cysylltu â:

Catrin ar **01970 832697** neu, well fyth, ar e bost: **catrin@simnewen.me.uk**.

Bydd angen i chi adael **manyllion** o'r eitem, **amcan bris, rhif ffôn** ac **enw cyswllt**.

Chi fydd yn gwneud y bargeinio caled, y dalltings a'r trefniadau talu - darparu'r gofod a'r wasanaeth fydd Papur Pawb.

Nid yw'r Papur Pawb yn cymeryd unrhyw cyfrifoldeb am y nwyddau a brynir.gwerthir.



Swdocw

Sut i chwarae

Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9.

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Talybont erbyn 5 Hydref.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

						2	9
	5			8		4	6
				5	6	1	
	6	1		9		4	
9							2
	7			6		9	3
		6	9	2			
8		9		7			1
5	4						

Canlyniadau Sioe Talybont

CYNNYRCH FFERM

Pelen o Wair Dôl

1. a 3. Dewi Jenkins, Tyn y graig
2. Ceris Williams, Penrhos

Tywarchen o borfa

3. Huw Davies, Llety ifan hen

CYNNYRCH GARDD

3 Sialotsyn gwyn

3. Gareth Evans, Sŵn y ffrwd, Bontgoch

3 Winwnsyn set

3. Gareth Evans

5 Winwnsyn

1. Margaret Richards, Tŷ Gwyn

3 Bety's crwn

3. Dr J. Williams, Brynryffty isaf

4 Coden o Bys

1. Tonny Allenby

2 Faro dros 12"

2. G.W. Jones, Glasgoed

Gwreiddyn Persli

2. G.W. Jones
3. Lynne Rendell

6 Tomato Geirios

2. Claire Fowler
3. D.R.O. Jones, Berthlwyd

4 Ffa Frengig

3. G.W. Jones

4 Coden Ffa

3. D.R.O. Jones

3 Carlwmpen

3. D.R.O. Jones

Casgliad o 4 Perlysiâu

1. a 2 G.W. Jones
3. Doug Wilson

3 Corlwmpen

1. G.W. Jones
2. D.R.O. Jones
3. Margaret Richards

4 Taten

1. D.R.O. Jones
2. Helen Hicks
3. Ffion Hicks

3 Coesyn Riwbob

1. D.R.O. Jones
2. Huw Evans, Coed yr Eos, Taliesin
3. Margaret Richards

4 Ffa Dringo

1. a 2. G.W. Jones
3. Dr Gareth Hughes

Casgliad o lysiau

1. Margaret Richards
3. D.R.O. Jones

BLODAU

6 math o flodau'r ardd

Ffion Nelmes, Tre'r-ddôl

Planhigyn Tŷ (deiliog)

3. Mai Leeding, Taliesin

Gardd fach ar blât

1. a 2. Gwenno Evans, Tanllan
3. Ffion Hicks, Llangynfelyn

Casgliad o flodau gwyllt

1. Ffion Nelmes, Dolau Gwyn
2. Gwenno Evans
3. Anwen Jenkins, Tyn y graig

Basged grog

2. Mai Leeding

Blwch ffenestr

1. Mai Leeding



Cwpan coffa Mrs Miriam Roberts yn gyfyngedig i drigolion plwyfi Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn am y marciau uchaf yn adran y blodau – **Mrs Mai Leeding.**

Cwpan Dr Myrtle Parker am yr ardd fach orau – **Gwenno Evans, Tanllan.**

Cwpan coffa Mr Ieuan Evans, Erwau'r Gors am y blwch ffenestr orau – **Mai Leeding.**



FFRWYTHAU

3 Afal Bwyta

1. Mai Leeding
2. Dr J. Williams, Bryngryffty isaf
3. Huw Evans, Coed yr eos, Taliesin

3 Afal Coginio

1. Geraint Lewis, York House, Tre'r-ddôl

3 Peren fwyta

1. Dr J. Williams
2. D.R.O. Jones, Berthlwyd

3 Peren goginio

1. a 2. D.R.O. Jones

3 Eirinen

1. a 2. Mai Leeding
3. Margaret Richards, Tŷ Gwyn, Bontgoch

6 Eirinen ddu

1. a 3. Mai Leeding
2. Geraint Lewis

Clwstwr o Rawnwin

Dr G. Hughes, Coetmor

Cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran ffrwythau – **Mrs Mai Leeding**

Cwpan Mr a Mrs Dewi Evans, Pen-y-graig am yr arddangosfa orau yn yr adran ffrwythau – **Dr Gareth Hughes**

COGINIO

Cacem Dundee

1. Lucy Swannell

Cacem wedi'i haddurno

1. Sue Northam, Drws y coed

Cacem ffrwythau

3. Heulwen Astley, Y Gorlan

Cacem foron

1. Sue Northam
2. Ruth Northam

Cacem datys a chnau Ffrengig

2. Valerie Walsh, Tre'r-ddôl
3. Janet Jones, Llwynglas

Cacem Siocled

1. Emma Lamb, Glandwr

Bara Brith

3. Janet Jones

Torth Wen

1. Jane Bailey, Troedrihiw Seiri

Torth Frown

2. Jane Bailey

6 Pice ar y maen

3. Anwen Jenkins, Tyn y graig

Pei Meringue Lemwn

1. Marion Evans, Tynant
2. Morfudd Lewis, Tynant

Cacem gaws

1. Janet Jones
2. Sue Northam

Pryd yn cynnwys cynnyrch Cymreig

1. a 3. Dorothy Williams, Bryngryffty isaf

Fflan Sawrus

2. Janet Jones

3. Jane Bailey

4 Fflapjac

1. Anwen Jenkins

2. Morfudd Lewis

4 Bynen Choux

2. a 3. Sue Hortham

Fy hoff bwddin

1. Mai Leeding, Taliesin
2. a 3. Dorothy Williams

Cwpan yn rhoddedig gan deulu Berthlwyd, Tal-y-bont am yr arddangosfa orau yn yr adran goginio – **Sue Northam**
Cystadleuaeth goffa Mrs Hilda Isaac, Penygraig, Tre'r-ddôl: Paratoi swper ysgafn i ddau i hyrwyddo bwydydd Cymreig – **Jane Bailey**, Bontgoch

CYFFEITHIAU

Jar o Farmalêd

1. a 2. Tegwen Jones, Glasgoed
3. Valerie Walsh

Jam Ffrwythau Meddal

2. Jane Bailey
3. Tegwen Jones

Jam Ffrwythau gyda carreg

2. Dilys Morgan, Alltgoch
3. Tegwen Jones

Jeli Ffrwythau

1. Tegwen Jones
2. Helen Hicks, Llangynfelyn

Ceulad Lemwn

1. Tegwen Jones
2. Janet Jones
3. Carol Davies, Taliesin

Picl cymysg

1. Tegwen Jones
2. a 3. Janet Jones

Jeli mint

1. Tegwen Jones
2. Dr Myrtle Parker, Ger y Plas
3. Janet Jones

Cyffaiith anarferol

2. Tegwen Jones
3. Jane Bailey

Dwy ffordd wahanol o gyffeithiau

1. Tegwen Jones
2. Jane Bailey
3. Helen Hicks

Dysgl o Golslo

1. a 2. Carol Davies

Gwin coch sych

Doug Wilson, Glyntuen, Tal-y-bont

Cwpan yn rhoddedig gan Mr Cledwyn Evans, Teiars Cambrian am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran gyffeithiau – **Tegwen Jones, Glasgoed**

Cwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran gyffeithiau – **Tegwen Jones, Glasgoed**



Enillwyd y ddau gwpan yn adran y gwin gan **Doug Wilson**

CYNNYRCH LLAETHDY

4 ŵy brown

1. Dewi Jenkins, Tynygraig
3. Catherine Moulder-Jones, Llwynnada

4 ŵy gwyn

2. a 3. Dewi Jenkins

4 ŵy arlliwiedig

1. Gwion Evans, Tanllan, Llangynfelyn
2. Catherine Moulder-Jones

4 ŵy bantam

2. Gwion Evans

4 ŵy hwyaden

1. Gwion Evans

Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran cynnyrch llaethdy – **Gwion Evans** yn derfynol

GWAITH LLAW

Brodwaith

1. Dilys Morgan, Alltgoch
2. a 3. Betty Jenkins, Carregcadwgan

Eitem croes bwyth

1. Elizabeth Evans, Coed yr Eos

Clustog

2. Tegwen Jones
3. Betty Jenkins

Rhodd i faban

3. Dilys Morgan

Dilledyn wedi ei weu

2. Myfanwy James, Bryneglur

Crosio

1. Dilys Morgan

Gwaith Cynfas

1. Margaret Jones, Nantgaredig

2. Betty Jenkins

3. Dilys Morgan

Brodwaith cyfrif edau

1. Betty Jenkins

2. Dilys Morgan

3. Tegwen Jones

Decoupage

2. Betty Jenkins

3. Tegwen Jones

Cerdyn cyfarch

1. Dilys Morgan

2. Mari Lewis, Yr hen siop sgidiau

Cwpan am yr arddangosfa orau –

Margaret Jones

Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran gwaith llaw – i'w rannu rhwng **Beryl Evans, Llangeitho** a **Dilys Morgan, Alltgoch**

CREFFTAU

Ffiol ffrwythau

1. Jules Montgomery, Bontgoch

Tegan i blentyn

3. Margaret Jones

Crochenwaith

1. Jules Montgomery

Paentiad

1. Morgan Tomos, Awelon, Pentrebach
2. Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll
3. Pauline Stickland, Loreley

Paentiad yn gyfyngedig i drigolion plwyfi

Ceulanamaesmawr a

Llangynfelyn

1. a 3. Pauline Stickland

2. Menna Morgan

Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran grefftau – **Jules Montgomery**

FFOTOGRAFFIAETH

Blodau

1. Catrin M.S. Davies, Simne Wen

2. Tony Allenby, 15 Dôl Pistyll



Plant

1. Catrin M.S. Davies
2. Alun Elidir, Simne Wen

Adeilad lleol

2. Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail
3. Gerwyn Llewelyn Breeze, 4 Dôl Pistyll

Dŵr

2. Jules Montgomery, Bontgoch

Cymeriad Diddorol

1. Eleri Watson, Islwyn, Taliesin

Cysgodion

1. Lucy Scannell, Tŷ'n Lôn
2. a 3. Gerwyn Llewelyn Breeze

Cawio Plu

'Peter Ross'

1. a 2. Andrew Morel de Bail, Bontgoch
 3. Chris Morel de Bail, Bontgoch
- 'Diawl Bach'
1. Andrew Morel de Bail
 2. a 3. Chris Morel de Bail

TREFNU BLODAU

'Breuddwydio'

3. Lynne Lewis Watson, Islwyn, Taliesin

'Mynegi eich hun'

1. Mair Nutting, Tŷ Hen Henllys
2. Claire Fowler, Bron y gân
3. Helen Jones, Gellimanwydd

Cwpan coffa Miss Nesta Evans, Erwau'r Gors am yr arddangosfa orau yn 'Mynegi eich hun' – **Mair Nutting, Tŷ Hen Henllys**

PLANT YSGOL GYNRADD

Dosbarth Meithrin

1. Emily Bradley
2. Mabli Rose
3. Gwernan Rebecca Brooks

Dosbarth Derby

2. Keira Forster Brown

Blwyddyn 1

1. Gemma Burnham
2. Ashleigh Evans
3. Lecsi Powell Taylor

Blwyddyn 2

1. Seren Powell Taylor
2. Rhodri Hughes
3. Caitlin Evans

Blwyddyn 3

1. Bethan Benham
2. Niamh O'Brien
3. Mari Lewis

Blwyddyn 4

1. Medi Evans
2. James Evans
3. Tara Howard

Blwyddyn 5

1. Alwenna Jenkins
2. Ellie Jones
3. Hannah Evans

Blwyddyn 6

1. Gruffudd Owen Mason
2. Elan Catrin Elidir
3. Lois Jones

YSGOL UWCHRADD

Fy hoff bwddin

1. Anwen Jenkins, Tyn-y-graig

Gwahoddiad i barti

2. Anwen Jenkins

Gemwaith Bwydadwy

1. Claire Watkins, Heulfor
3. Anwen Jenkins

Ffotograff

1. Garmon Nutting, Ty Hen Henllys
 2. Claire Watkins
 3. Anwen Jenkins
- Cwpan am yr arddangosfa orau – **Claire Watkins**
- Cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau – **Anwen Jenkins**

C.Ff.I.

Fy hoff bryd bwyd

1. Mererid James, Cwmudw

Pitsa

1. Garmon Nutting
3. Mererid James

Pryd o fwyd yn defnyddio cig oen

1. Mererid James

Eitem o grefft

1. a 3. Catrin Jenkins, Ynyseidiol
- Cwpan am yr arddangosfa orau yn adran C.Ff.I. – **Catrin Jenkins** yn derfynol

CEFFYLAU

Ceffylau gwedd: Caseg ag ebol

1. Paul Fleming

Ebol

3. Paul Fleming

Caseg Hesb neu Adfarch

2. Paul Fleming

Adran C Caseg hesb neu Adfarch

2. Katie Prickett, Lletyllwyd
- ### Merlen mynydd Cymreig o dan gyfrwy
3. Rhys Norrington Davies, Tyncae

Ceffyl Marchogaeth

3. Catherine Moulder-Jones, Llwynadda

Gwisg Ffans

1. Catrin Fflur Manley, Woodlands

Mynydd a Gweundir

1. Catrin Fflur Manley

Dosbarth Lleol

1. Catrin Fflur Manley

Dangosydd Ifanc

3. Catrin Fflur Manley

Leading Rein

2. Catrin Fflur Manley

Merlen dan 122cm yn addas

i'w farchogaeth am y tro cyntaf

Rhys Norrington Davies

Treccio

2. Lucie Hobson, Cwmglo

CŴN

Unrhyw gi neu ast

3. Paul Kelly, Maesyderi

Ci neu ast ddefaid

2. Lois Williams, Llety ifan hen, Bontgoch

Ci neu ast dan 12

3. Wendy Kelly, Maesyderi

Dangosydd ifanc

3. Jamie Davies, Maesyderi

Ci anwes

3. Paul Kelly

Mwngrel

3. Nicola Myring-Thomas, Dôl Pistyll

Ci a'i gynffon yn siglo

3. Rosie Bailey, Troesrhiwseiri

DOFEDNOD – Ieir

Unrhyw amrywiad mawr pluen feddal – ceiliog

2. Dewi Jenkins, Tyngraig
3. Gwion Evans, Tanllan

Bantam Pur – ceiliog

3. Gwion Evans

Iar

2. a 3. Gwion Evans

Croes frid

1. Gwion Evans
2. Dewi Jenkins, Tynygraig

Dosbarth y plant

3. Gwion Evans

HWYAID

U A brid trwm – Barlad

1. Catherine Moulder-Jones, Llwynadda

3. Gwion Evans

U A brid trwm hwyaden

3. Gwion Evans

U A brid ysgafn meilart

1. Gwion Evans

U A frid ysgafn hwyaden

1. Gwion Evans

Plant dan 15 oed

- 1, 2 a 3. Gwion Evans

Arddangosiad gorau adran yr hwyaid

Catherine Moulder-Jones

Cilwobr – Gwion Evans

Anifeiliaid anwes

1. Bethan Benham (cwningen)
2. Megan Mason (S. African land snail)
3. Jac Bonner (madfall)

ENILLWYR Y CWPANAU

Cob Adran D: O. Jones, Bridfa Nebo, Llanon

Cob Adran C: Teulu Reed, Cross Inn, Llanon

Merlod Mynydd Cymreig: Merlen ag Ebol wrth droed: D.B. Davies, Bryngwelli, Pisgah

Arddangosiad Gorau Dos 1-20A: Jones, Bridfa Nebo

Merlen Orau dros 2 flwydd: Robert H. Jones, Llanbedr Pont Steffan

Merlen Mynydd Orau: R. a B.H. Reipen, Dôl Llan, Llandysul

Treccio Lleol: Angharad Spence-Wilson, Aberffrw



Arddangosiad gorau Dos 23-26B:
Rose Rooke, Llangeitho
Helfarch orau: Alex Sylvester,
Llangorwen
Hurfarach orau: Hannah Titley,
Commins Coch
Mynydd a gweundir orau: Mrs
Russell, Cei Newydd
Adran Merlod Marchogaeth:
Claire Davies, Rhaeadr
Ceffylau Gwaith Stalwyn Orau:
D.H. Davies, Troedrhiwceir,
Aberffirwd
Ceffyl gwaith gorau: Elfed a
Louise Davies, Castellnewydd
Emlyn
Pencampwr y ceffylau: O. Jones,
Bridfa Nebo

CŴN

Tywysydd gorau dan 12 oed:
Shelley Musker Turner, Ffair
Rhos
Ci Gorau: Megan Mason,
Llandre
Ast orau: Karen Walsh, Comins
Coch

DOFEDNOD

Arddangosfa adran yr Ieir: Huw
Thomas, Aberarth
Hwyaden Orau: Catherine
Moulder Jones, Llwynadda
Plant dan 15 oed (Ieir): David
Andrew, 1 Wern Cottage, Pool
Quay
Plant dan 15 oed (Hwyaid):
Gwion Evans

RASYS CŴN

Ras i gŵn defaid

1. Huw Davies a Cadi
2. Anna Sistern a Saeth
3. Dewi Jenkins a Gwenno

Ras i Ddaeargwn

1. Carwyn Jenkins a Cadi
2. Betsan Siencyn a Cadi
3. Dewi Jenkins a Basil

Ras i Filgwn a chŵn potsiwr

1. Katy Underwood a Cariad
2. Jo Harrison a Nelie
3. Teresa Hancock a Rooney

Ras i unrhyw frid arall – coes byr

1. Anna Sistern a Finn
2. Anna Sistern a Jaff
3. Jane Bailey a Holly

Ras i unrhyw frid arall – coes hir

1. Trystan Davies a Nano
2. Katie Prickett a Mole
3. Shelley Musker Turner a QueeZle

Ras i ferched a'u cŵn

1. Jenny Hobbiss a Sasha
2. Shelley Musker Turner a QueeZle
3. Nia Jones a Jac

Ras i ddynion a'u cŵn

1. Chris Morrell a Holly
2. Trystan Davies a Nano
3. Dewi Jenkins a Gwenno



Cffi Tal-Y-Bont s'r Cylch

Mae'n gychwyn ar flwyddyn arall yng nghalendr y Ffermwyr Ifanc. Yn dilyn prysurdeb paratoi i'r Rali, a'r cystadlu brwd, aeth rhai o aelodau'r clwb ymlaen i gynrychioli'r sir yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Llongyfarchiadau i Rhydian ac Elgan Evans, Tynant, am ddod yn 4ydd fel tim yn y gystadleuaeth cneifio.

Yn anffodus, bu rhaid i'r sir ganslo y Diwrnod Chwaraeon oherwydd y tywydd gwael. Yn ogystal a hynny, bu rhaid canslo'r Treialon Cwn Defaid oherwydd y Clwyd Traed ar Genau. Er hynny, bu nifer o'r aelodau dan 18 lawr yng Nghelaeron, Ciliau Aeron, ar nos Wener 13 Gorffennaf, yn cystadlu yn yr 'It's a Knockout'. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw! Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol eleni ar nos Fawrth, 5 Gorffennaf. Etholwyd y swyddogion canlynol:

Llywydd: **Dei a Jen Evans, Neuadd Fawr**
Cadeirydd: **Eifion Jenkins, Cerrigcaranau**
Ysgrifenyddion: **Geraint Jenkins, Cerrigcaranau**
Rhian Evans, Marine
Trysorydd: **Gareth Jenkins, Ynyseidiol**
Cofnodion: **Caryl Jenkins, Cerrigcaranau**
Llyfr Lloffion: **Seirian Evans a Caryl Jenkins**
Gohebydd y Wasg: **Catrin Jenkins, Ynyseidiol**

Eleni eto bu stondin gyda'r clwb yn Sioe Tal-y-bont. Diolch i bawb a ddaeth heibio â'n cefnogi.

Bellach mae'r clwb wedi cychwyn blwyddyn newydd. Dechreuwyd gyda Sosial Fach, ar nos Fawrth, 4 Medi, yng ngofal Meirion a Mari Botwood. Cafwyd noson hwyliog a difyr iawn. Bu'n gyfle i'r aelodau newydd ddod i nabad gweddill y criw.

Mae tocynnau Clwb 100 ar werth gyda'r aelodau. Llawer o ddiolch i bawb a wnaeth ein cefnogi y llynedd, a mawr obeithiwn y gwnewch ein cefnogi eleni eto.

CANLYNIADAU CLWB 100:

Mai

- £20 Elin Jones, Plaid Cymru
- £15 David Jones, Bwlchdyddwyallt, Talybont
- £10 Teulu Edwards, Gerycoed, Cwmsymlog

Mehafin

- £20 Luned Mair, 2 Tanygeulan, Capel Bangor
- £15 Owain James, Hendy Penbanc, Penrhyncoch
- £10 Eirwen Hughes, Pencwm, Penrhyncoch

Gorffennaf

- £20 Anne Jenkins, Ynysgreigiog, Ffwrnais
- £15 Geraint Jenkins, Pembompren Uchaf, Talybont
- £10 Rhian Evans, Gwesty'r Marine

Os oes ganddoch ddiddordeb mewn ymuno â Cffi Tal-y-bont rydym yn cwrdd bob nos Fawrth am 8.00yh. Gwelwch y Dyddiadur am wybodaeth ein digwyddiadau. Rydych yn sicr o gael llawer o hwyl a sbri gyda'n amrywiaeth o weithgareddau.

Yn olaf, llongyfarchiadau i Siôn a Catrin ar enedigaeth Efa Fflur – mascot diweddarar clwb!

Rhaglen y Sioe

Gobeithio eich bod wedi sylwi fod Rhestr Cystadleuthau Sioe Talybont yn ddwyieithog eleni ac i Lowri a Meleri Jones, gynt o Rhydyrys-gaw, Penrhyncoch mae'r diolch. Bu'r ddwy yn brysur dros y gaeaf yn ei gyfieithu ac mae'r cyfieithiad yn hawdd i'w ddarllen ac yn gofnod gwerthfawr o dermau sioeau. Diolch hefyd i Hefin Llwyd, Aberystwyth unwaith eto am helpu'r Sioe drwy edrych dros y gwaith. Rhaid cyfeirio na fyddai neb balchach nac hapusach fod y gwaith yma wedi ei wneud nag eu tad, Alwyn Jones, a fu yn aelod gweithgar iawn o bwyllgor y Sioe am flynyddoedd.



Herbert Wynne Ellis

Bu farw Herbert Wynne Ellis, Lerry View, Tal-y-bont ar ôl cystudd blin yn Ysbyty Llanymddyfri, dydd Iau, 21 Mehefin, a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar y 29ain o Fehefin.

Fe'i ganwyd a'i magwyd ym Mhenrhyn-coch, ac yn llanc ifanc rhaid oedd ymuno â'r fyddin lle y treuliodd beth amser yn yr Aifft. Yn 1945 priododd â Mary Williams, Cwmslaid ac ymgartrefodd y ddau yn Trewern, Tal-y-bont gan ddechrau busnes paentio a phapuro ei hunan gyda chymorth ei wraig. Ddechrau y chwedegau symudodd y ddau i Lerry View, Tal-y-bont lle bu'r ddau yn gwario oriau yn yr ardd flodau a llysiau. Bu'r ddau yn mynd â'u cynnyrch â'r trefniant blodau i sioeau lleol ac ym mis Gorffennaf y sioe yn Llanellwedd oedd y nod gyda'r trefnu blodau. Am sawl blwyddyn bu yn M.C. gyda gyrfa chwist y Sioe yn Nhal-y-bont, y Ffermwyr Ifanc â'r Eglwys yn Bontgoch.

Bu ei iechyd yn wael ers blynyddoedd ond medrodd aros yn Lerry View gyda chymorth y teulu, nyrsys, gofalwyr, dosbarthwyr pryd ar glyd a chymdogion caredig. Daeth yr amser i fynd i'r ysbyty yn Aberystwyth cyn gorfod mynd i gartref gofal arbennig Blaen-nos, Llanymddyfri.

Richard Murray Francis

(1948-2007)

Brawychwyd ardal gyfan wrth i'r newydd dorri am farwolaeth annisgwyl Richard Francis, Plas Cefngwyn, Bont-goch ar Ddydd Sul, 22 Gorffennaf.

Yn frodor o Romford, Swydd Essex, ganwyd Richard Murray Francis ym Mehefin 1948 yn drydydd plentyn i glerc Cyngor Bwrdeistref Chelmsford, Mr. Bertram Francis a'i briod Mary.



Ar ôl cymhwyso fel cyfrifydd, ymsefydlodd Richard a'i briod newydd Jacqueline ym Mhantfallen Fach, Tregaron, yn 1973, cyn symud i Blas Cefngwyn, Bont-goch yn 1991. Roedd yn bartner yn nghwmni cyfrifyddion Francis Gale, 57 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth.

Yn wr preifat, bonheddig a diymhongar, roedd ganddo ddiddordebau hamdden eang. Roedd yn hoff o ferlota a cherdded, yn beilot awyren cymwys, ac yn wrandawr mawr ar gerddoriaeth glasurol. Yn ei gymdeithas leol, roedd yn hael ei gefnogaeth i achos Eglwys Elerch.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i deulu a chofir yn arbennig am ei weddw Jacqueline, ei fab Dominic, ei ferch Shelley a'i phriod, Tom Rees.

Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu ei fywyd a'i waith yn Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch ar 1 Awst dan arweiniad Yr Hybarch Archddiacon Hywel Jones, yn absenoldeb anorfod Y Parchg John Livingstone. Daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf mewn gwasanaeth emosynol a chofiadwy, wrth i Dominic dalu teyrnged hyfryd i'w dad, ac i'w ferch Shelley ddarllen cerdd *The Daffodils* o waith William Wordsworth. Derbynnir rhoddion er cof amdano i'r *Anaphylaxis Campaign*, d/o C. Trefor Evans, Brongenau, Llandre, Aberystwyth, SY24 5BS.

Coffa da amdano.

REH

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120



Eglwys St. Pedr, Elerch

Diolch i bawb a gefnogodd noson lwyddiannus Caws, Gwin a Chân Eglwys Elerch ar 29 Mehefin. Ar noson braf, roedd yr Eglwys yn gyfforddus lawn i wrando ar Gantre'r Gwaelod yn ein diddanu, dan arweiniad medrus Eleri Roberts. Cyn hynny cafodd pawb gyfle i gymdeithasu yn yr awyr agored ac i fwynhau gwydriad o win neu sudd, cawsydd amrywiol, a danteithion eraill. Llwyddwyd i godi dros £600 i'r coffrau, ac mae'r swyddogion yn arbennig o ddyledus i'r côr am roi o'i gwasanaeth yn rhad ac am ddim.



Capel Tynant

Daeth tymor yr haf i ben yn y ffordd arferol gydag ymweliad a chapel Bethesda, Tynant. Diolch i bawb a gymrodd ran yn y gwasanaeth. Cafodd bawb hoe hir- ddisgwylidig ym mis Awst cyn ail ymgynnull ar ddechrau Medi yn llawn egni a brwdfrydedd!! Rydym wedi penderfynu mynd ar y tren i Telford ar y trip eleni. Y cynllun yw sglefrio ia a siopa ar ddiwedd Medi felly gwylwch y rhifyn nesaf i weld pwy dorrodd beth!

Ci da

Cafodd Liam Kelly, 67 Maes-y-deri, Tal-y-bont ai gi bach Schanuzer – Seren-Mai y wobwr gyntaf yn Sioe Llanidloes.



ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627



Mewn Stetson ar y Prom

Os oeddech yn digwydd cerdded ar hyd y prom yn Aberystwyth ar Ddydd Sul, Awst 26 eleni mi fydddech wedi gweld golygfa anghyffredin, sef tyrfa enfawr o ddawnsyr llinell a chefnogwyr yn perfformio i gerddoriaeth canu gwlad yn yr heulwen braf.

Eleni cynhaliwyd yr achlysur cyntaf o'i math gan y 'Ravin Stompers', sef criw o ddawnsyr llinell dan arweiniad Heulwen Astley, neu 'Heulwen y Spar' i ddarllenwyr Papur Pawb. Codi arian i elusen Canser y Fron oedd nod yr achlysur a chael tipyn o hwyl wrth wneud hynny.

Cychwynwyd y diwrnod i gerddoriaeth y 'Dancers and Ravers' o Groesoswallt a bu aelodau o ddawnsyr Wrecsam yn hyfforddi'r dorf hefyd gan gynnwys yr enwog Geoff Langford.

Roedd yr artistiaid byw, sef Carl Shay a Bobby D Sawyer yno i ddiddori'r gynulleidfa a'r ymwelwyr ar eu gwyliau yn ystod y prynhawn gyda'u lleisiau nodweddiadol. Bu nifer yn paentio wynebaw er mwyn cefnogi'r achos a daeth y diwrnod i ben gyda barbeciw ar bwys Rheilffordd y Graig.

Codwyd y swm sylweddol o £1,130 ar y diwrnod ac fe fydd sic yn cael ei chyflwyno i uned Canser y Fron Ysbyty Bronglais yn y dyfodol agos. Mae hyn yn golygu y bydd y 'Ravin Stompers' wedi codi £9,330 i'r achos teilwng yma yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf. Ardderchog!

Hoffai'r criw ddiolch yn ddiffuant i bawb a helpodd i wneud y diwrnod yn un llwyddianus a hwyliog, yn enwedig i fusnesau lleol am noddi'r achlysur.

Breuddwyd y 'Stompers' yw ychwanegu at y cyfanswm a chodi £10,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Eu nod yw cynnal yr Wyl dros 2 ddiwrnod y flwyddyn nesaf, ond os hoffech weld y criw wrthi cyn hynny, mae nhw'n perfformio yn y Bandstand ar y 19 a'r 26 o Fedi rhwng 7:30 a 9:00pm. Does dim pall ar egni'r 'Ravin Stompers'!

Scwp arall i ddilynwyr canu gwlad ... mae Heulwen wedi trefnu i neb llai na John ac Alun i ddod i Neuadd Goffa Talybont i gynnal cyngerdd ar 16 Tachwedd. Tocynnau ar gael gan Heulwen 01970 832486.

Bad Achub Borth

Yn ystod yr wythnos Badau Achub, 23ain i'r 27ain Gorffennaf 2007, casglwyd y swm o £145.37 o ddrws i ddrws yn Nhal-y-bont tuag at Bad Achub y Borth.

Yn yr ardal gyfan casglwyd £2044.87 sy'n cynnwys £463.10 a gasglwyd gan griw'r Bad Achub lleol ym meysydd carafanau a chlybiau Borth. Diolchir yn wresog i bawb am ymateb haelionus. Y mae'r gefnogaeth a gafwyd yn gymorth amhrisiadwy i wirfoddolwyr dewr sy'n gwasanaethu trwy achub bywydau y rhai sydd mewn trafferthion ar y môr yn y rhan yma o fae Ceredigion. Gwerthfawrogir hyn yn fawr gan swyddogion Sefydliad y Badau Achub Brenhinol.

Fel casglwyr dymunwn fynegi'n diolch diffuant i bawb am y croeso a'r swm anrhydeddus a dderbyniwyd oddi wrthyh oll.

Eirlys Jones a Myrtle Parker

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Gyda'r haf yn prysur ddirwyn i ben, ganol mis Medi fe fydd y Cynulliad yn dechrau cwrdd unwaith eto. Fodd bynnag, roedd yr haf yn gyfnod prysur tu hwnt wrth imi geisio ymgysgu â bod yn Weinidog dros Faterion Gwledig yng nghabinet newydd Llywodraeth y Cynulliad. Cefais fy mhenodi yn ystod wythnos gyntaf gwyliau haf y Cynulliad ac rwy'n edrych ymlaen yn awr at y cyfle i gael cynrychioli Ceredigion a chefn gwlad Cymru oddi fewn i'r Cabinet. Yn y gorffennol, rwyf wedi bod yn galw am gael portffolio penodol ar gyfer Materion Gwledig yn y Cabinet er mwyn cael cynrychiolaeth deg i anghenion cefn gwlad Cymru ar Lywodraeth y Cynulliad. Mae felly'n fraint mawr mai fi yw'r Gweinidog cyntaf i gael y portffolio newydd hwn. Serch hynny, bydd fy ymroddiad at gynrychioli pobl Ceredigion yn parhau i fod yn flaenoriaeth imi.



Un o fy nyletswyddau cyntaf fel Gweinidog oedd trefnu ymateb Cymru i fygythiad Clwyf y Traed a'r Genau. Wrth imi ysgrifennu'r erthygl hon, rydym wedi bod yn ffodus iawn na fu achos o'r Clwyf yng Nghymru. Fodd bynnag, fe gafodd y gwaharddiadau ar symud anifeiliaid effaith yma yng Ngheredigion fel ym mhobman arall yng Nghymru ac roedd hyn i'w weld yn y sioeau amaethyddol y gwnes eu mynychu dros yr haf. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd popeth yn dychwelyd i'r arfer dros yr wythnosau nesaf.

Daeth newyddion da i deithwyr yng Ngheredigion dros yr haf wrth i'r Gweinidog dros Drafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, ddatgan y bydd £13 miliwn yn cael ei wario ar uwchraddio'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig. Roedd y buddsoddiad sylweddol hwn yn un o'r materion a drafodwyd cyn ffurfio clymblaid rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Lafur. Rwy'n gyson yn clywed cwynion gan drigolion Ceredigion sydd wedi derbyn gwasanaeth gwael wrth deithio ar y rheilffordd hon drwy Ganolbarth Cymru. Rwyf felly'n gobeithio y bydd prydlondeb a safon y gwasanaeth rhwng Aberystwyth a'r Amwythig nawr yn gwella o ganlyniad er budd holl drigolion Ceredigion.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos



Dau Awdur Lleol

Dros fisoedd yr Haf cyhoeddwyd dwy gyfrol gan ddau awdur o Dal-y-Bont, sef Cestyll yn y Cymylau gan Mihangel Morgan a Prif Weinidog Answyddogol Cymru, cofiant Huw T. Edwards (a oedd gyda llaw yn daid i Eleri Huws), gan Gwyn Jenkins. Darllenais y ddwy - maent wrth reswm yn dra gwahanol ond yn dangos y doniau llenyddol sydd gennym o fewn ffiniau un pentref.

Fe'm trawyd gan frawddeg yn Prif Weinidog Answyddogol Cymru - y geiriau yn ddatganiad gan wrthych y gyfrol ei hun, Huw T. Edwards - a dyma nhw, *You can't plan ahead unless you look back*. A dyna a geir yng nghyfrol Gwyn Jenkins - golwg yn ôl ar fywyd a gwaith un a oedd yn ei ddydd yn ffigur dylanwadol iawn ym mywyd cyhoeddus Cymru. Fel sy'n addas i gofiant mae'r awdur yn dilyn llwybr cronolegol. Mae'r stori yn cychwyn gyda genedigaeth Huw T (a dyna sut y cyfeirir ato drwy gydol y llyfyr) yn 1892 mewn tyddyn ar lethrau mynydd Tal-y-Fan ger Penmaen-mawr. Ni chafodd nemor ddim addysg ffurfiol ac fe aeth i weithio yn y chwarel leol yn bedair ar ddeg. Fel llawer o'i gyfoedwyr teithiodd o fro ei febyd i gymoedd y de a chael gwaith yn y pyllau glo. Roedd y gyflog yno yn well nag arian prin y meistri chwarel a dyma lle cafodd Huw T y profiad o fod *yn y ffwrn*, profiad a oedd yn llawer mwy gwerthfawr nag arian a phrofiad a luniodd ei egwyddorion am weddill ei fywyd. Drwy weld yn uniongyrchol amodau gwael y gweithiwr, boed yn y chwarel neu'r pwll glo daeth Huw T yn undebwr pybyr ac yn sgîl hynny yn aelod blaenllaw o'r Blaid Lafur. Cerddodd goridoriau pŵer gan ddod i adnabod gwleidyddion fel Clement Attlee a Herbert Morrison a'r Cymro eiconaidd hwnnw yn hanes y Blaid Lafur, Aneurin Bevan.



Gwyn Jenkins, Eleri Huws a Robot Gruffudd yn y lansiad yn y LLGC

Mae'n debyg mae'r swydd bwysicaf a ddaeth i Huw T oedd Cadeiryddiaeth Cyngor Cymru - fe'i gwahoddwyd i'r swydd yn 1949 ac fe gychwynnodd y Cyngor ar ei waith yn 1950. Mae olrhain cyfraniad y Cyngor yn dasg ddyrys a chymhleth ond mae Gwyn yn cwblhau'r dasg yn glir a chytbwys ac yn dod a ni at gwestiwn sy'n greiddiol i'w gyfrol - faint o ryddid a grym a fyddai ar gael i'r Cyngor gan lywodraeth Llundain a gan weision sifil y llywodraeth hynny? Neu, a rhoi'r peth yn fwy plaen - pa mor bell y gallai datganoli fynd? Dyma fater a ddaeth a phoen a phryder i Huw T gan arwain at rwystredigaeth ac yn y pen draw a achosodd iddo adael y Blaid Lafur ac ymuno a Phlaid Cymru. Daw hyn a ni nôl at y frawddeg *You can't look ahead unless you look back*, ac wrth i ni yng Nghymru 2007 brofi pennod newydd yn hanes datganoli gyda'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn rhannu pŵer mae cyfrol Gwyn yn dangos yn hynod o effeithiol mai proses yw datganoli ac fod Huw T Edwards wedi chwarae rhan allweddol yn y broses honno.

Mae'r dystiolaeth a'r ymchwil yn Prif Weinidog Answyddogol

Cymru yn hynod o drylywr ac ond yn un o ragoriaethau'r gyfrol. At hyn ceir ymadrodd clos a chynnes - er enghraifft disgrifiad o Huw T ar ddiwedd ei oes fel *ceffyl blaen wedi ei droi allan i bori*. Efallai, fel y dywed yr awdur ei hun, fod cyfnod Huw T yn ddieithr i Gymry'r unfed ganrif ar hugain ond wrth geisio deall Cymru heddiw rhaid ceisio dandansoddi Cymru ddoe ac mae llyfyr Gwyn yn gyfraniad gwerthfawr i'r dadansoddiad hynny.

Person hefyd yw canolbwytyn nofel ddiweddaraf Mihangel Morgan, Cestyll yn y Cymylau. Y person hynny yw J Howard Beynon, gwr a weithiodd yn ddi-nod a disylw fel gofalwr toiled yn Aberdyddgu (gweler Aberystwyth) ond ar ôl ei farwolaeth a gydnabyddwyd fel arlunydd byd-enwog gyda'i luniau yn gwerthu am filiynau o ddoleri. Yma eto ceir hanes bywyd ond gan gan fod J Howard Beynon wedi marw daw'r wybodaeth i gyd o rai a oedd yn ei adnabod neu oddi wrth feirniaid y byd celf a sy'n canmol neu damnio ei waith. Mae yma ddirgelwch, tristwch a doniolwch gyda'r llyfyr yn gwibio'n gyflym o un agwedd i'r llall ac yn gwibio yr un mor gyflym o strydoedd cefn a chymeriadau cyffredin Aberdyddgu i orelau a salons y byd celf. Fel y byddai rhywun yn disgwyl gyda Mihangel nid nofel gonfensiynol yw hon - yn wir mae'n darllen mwy fel astudiaeth feirniadol gyda chyfeiriadau cyson a llyfryddiaeth ar y diwedd. Bwriad y cyfan mae'n debyg yw dangos pa fath o berson oedd J Howard Beynon; rwy'n gorfod dweud mae'n debyg oherwydd dwy i ddim yn siwr beth sy gyda ni yn Cestyll yn y Cymylau ac ar ôl gorffen y llyfyr cefais fy hun yn gofyn - pwy sy'n twyllo pwy fan hyn? Iffe ymgais i ddangos nad oes byth parch i'r artist yn ei oes a'i wlad ei hun sy gyda ni, neu efallai cyfle i wneud sbri ar ben arbenigwyr hunan-dybus y byd celf, neu o bosib ymgais gan yr awdur i ddangos na allwch chi byth ddeall a llawn werthfawrogi ymdrechion a dyheadau y person creadigol? Mae hyn oll yn y nofel ond er fod y cwestiynnau yno nid yw'r atebion yn dod yn hawdd, os o gwbl. A beth arall fydddech chi'n ddisgwyl oddi wrth rhywun fel Mihangel Morgan? Mae'r awdur a'i seithfed nofel, Castell yn y Cymylau yn enigma, ond rhaid ychwanegu ar unwaith - yn enigma difyr.

Prif Weinidog Answyddogol Cymru gan Gwyn Jenkins, £14.95
Cestyll yn y Cymylau gan Mihangel Morgan, £6.95
Y ddwy wedi eu cyhoeddi gan Y Lolfa.

GIE

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technogydd Pensaernïol
Gallimorwydd, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HI
01970 832760

William Henry Edwards

(1880-1915), Lerry View, Bont-goch

Bu farw Private 13224 William Henry Edwards, Lerry View, Bont-goch yn y Rhyfel Mawr yn Ffrainc ar 27 Mai 1915, yn 34 mlwydd oed. Roedd yn aelod o ail fataliwn Catrawd Dyfnaint (Devonshire Regiment). Ddeuddydd cyn hynny gyrrodd ei lythyr olaf adre at ei fam weddw, llythyr a gyhoeddwyd yn ddiweddarach ym mhapur lleol y *Welsh Gazette*.



A few lines hoping that you are in the best of health. I received the letter and stationery safe. We are having very good weather here at present. Very sorry to hear about Mr. D. Richards' death. I thought sure to see him once again in this world, but my ways are not your ways, saith the Lord. Dear Mother, you don't want to worry about me out here. I am quite happy; the more we charge the enemy the more the merrier; getting quite used to the work. I believe that nothing but the slaughter of the enemy will bring this war to a successful issue, and I quite trust in God to bring me back safe someday. Should I fall in battle, His will be done, I shall be alright. How is Mr. J. P. Evans and the family: also Mrs Morris. Glad that Elizabeth Anne is getting on well; also so pleased that there are so many giving themselves for King and country in my remote little village.



Llun y fynwent

Ganwyd William Henry Edwards yn 1880 ym mhlwyf Elerch yn fab i Morgan Edwards, gwr lleol, a'i briod Elizabeth a hannai o ardal Rhostie, ger Llanilar. Fel nifer eraill o drigolion yr ardal cyflogwyd Morgan yn y gweithfeydd mwyn, ond trodd ei olygon ymhen amser tua phyllau glo y de pan aeth i ardal Cilfynydd i chwilio am waith a fyddai'n talu'n well. Yng nghyfrifiad 1901 ceir Morgan Edwards yn gweithio fel *coal hewer* ac yn byw fel *boarder* yn 19, William Street, Cilfynydd, ar gyrion Pontypridd, tra parhaodd ei wraig Elizabeth i fyw yn *Lerry View* [Penrhiw erbyn hyn], Bont-goch gyda'i ddwy ferch Milcah, 8 oed, a Charlotte Mary, 4 oed.

Roedd William Henry Edwards eisoes wedi gadael y cartref yn lanc ifanc, a nodir iddo fynd i Lundain tua 1894 pan ond yn 13 oed, cyn dychwelyd i Gymru i chwilio am waith. Erbyn iddo wirfoddoli i ymuno â'r fyddin ym Medi 1914, roedd yn löwr yn y Gilfach Goch, yn agos at yr ardal lle bu ei dad yn gweithio. Ar ôl enlistio yn Nhonyrefail, treuliodd gyfnod o hyfforddiant yng Nhaer-Wysg (Exeter), cyn dychwelyd adref i Bont-goch dros wyliau'r Nadolig. Fe'i gyrrwyd yn fuan i Ffrainc yn Ionawr 1915, a rhwng 10-13 Mawrth 1915 cymerodd ran ym mwrwydr waedlyd Neuve Chapelle, brwydr a ystyrir yn un arwyddocaol yn hanes cynnar y Rhyfel. Yn ystod tridiau o ymladd ffyrnig, collodd cyfanswm o 25,000 o filwyr eu bywydau. Er iddo ddianc yn fyw o'r frwydr

honno, bu farw'n fuan ar ôl hynny mewn brwydr arall ar 9 Mai 1915.

Roedd ei dad eisoes wedi marw yn 56 oed ar 9 Gorffennaf 1912, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys St. Pedr, Elerch. Parhaodd ei fam, Elizabeth, a'i chwaer Milcah i fyw yn *Lerry View* tan farwolaeth y fam yn 1933 yn 80 mlwydd oed. Bu Milcah hithau farw yn 52 oed, ar 2 Medi 1945. Priododd ei chwaer ieuengaf, Charlotte Mary ('Lottie'), â John Griffiths, gwr o ardal Ystum-tuen, a hynny sy'n egluro pam y galwyd eu cartref yng Nglan-tuen (ail-enwyd bellach yn Llawr-y-glyn). Bu farw John Griffiths ar 21 Rhagfyr 1950 yn 66 oed, ond bu ei briod fyw hyd at 30 Mehefin 1995, a chyrraedd yr oedran teg o 95 mlwydd oed, gan dreulio dyddiau olaf ei hoes dan ofal Cartref Tregerddan. Mae holl aelodau'r teulu, ag eithrio William, wedi eu claddu yn Eglwys St. Pedr, Elerch, lle roeddent yn nodedig am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch i'r achos.

Er i William gael ei goffáu ar garreg fedd ei rieni, mae ei gorff yn gorwedd ymhell o adre yn Saily-sur-la-Lys Canadian Cemetery yng ngogledd Ffrainc. Fel Arthur Morris, a aeth hefyd i weithio i dde Cymru yn y pyllau glo, nid yw William Edwards wedi ei goffáu yn ei blwyf enedigol, ac nid yw chwaith wedi ei gynnwys ar gogolofnau rhyfel Tonyrefail na'r Gilfach Goch.

Richard E. Huws
Pantgwyn, Bont-goch

Carwn ddiolch yn gynnes iawn i'r nifer sylweddol ohonoch a wnaeth gysylltu yn dilyn cyhoeddi fy ysgrif ar Arthur Morris yn rhifyn Mehefin *Papur Pawb* i gynnig manylion pellach. Byddwn yn falch iawn i dderbyn ymateb tebyg i'r nodyn uchod.

Holuch Paul am bris ar
paul@yloffa.com

yloffa
Agraffwyr

TALYBONT CEREDIGION SY24 5ER
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

GOBAITH Y DYFODOL ~ Cyfle arbennig cydenwadol i'r fro

Mae menter gyffrous ar gyfer ieuencid Gogledd Ceredigion yn tyfu. Ysgogwyd y syniad i geisio sicrhau parhad cyswllt ieuencid a'u capel neu eglwys drwy gydymdeithasu. Ymledodd y syniad fel bo cydweithio ar draws endawdau yn y Cylch ... yn Anglicanaidd, yn Fedyddwyr, yn Annibynnwyr a Phresbyteriaid o Gapel Seion i Daliesin ac o Gwm Rheidol i'r Borth .. gan bwysiced y credir mewn ymgyrchu i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol a Christnogol ymhlith ieuencid yr ardal.

Eisoed dros gyfnod yr haf, dan arweiniad Glyn Saunders Jones, sefydlwyd gweithgareddau amrywiol, cyfoes a deiniadol a oedd yn apelio at ein hieuencid dan faner "OS METS...". Roedd dros 20 o bobl ieuainc yn cyfranogi

O ganlyniad i'r llwyddiant hwn fe lansir gweithgareddau 2007-08 nos Fercher Hydref 10fed yn Ffestri Capel y Garn Bow Street am 7 o'r gloch dan arweiniad Sion Evans o Goleg y Bala.

Felly dyma gyfle i ieuencid ardaloedd Y Tincer a Phapur Pawb a Capel Seion i ymuno yn y fenter. Dewch, cefnogwch. Dewch i gymdeithasu.

Os ydych angen rhagor o wybodaeth cysyllter â Dewi Hughes [Ffôn: 01970-828026



Golff

Llwyddodd Nia Wyn Jones ennill cystadleuaeth Golff Agored Oedolyn/Ifainc yn Clwb Golff Borth a Ynyslas gyda Babra Rees ar 22 Gorffennaf 2007. Ac ar y 3 Medi enillodd Nia (gyrwrwr pellaf a net orau) yn adran capten ieuencid.



Dyfodol disglair

Llongyfarchiadau cynnes i George Lithgow, Hafod Elerch, Bont-goch a ddyfarnwyd y chwaraewr ifancaf a ddatblygodd orau yn ystod y tymor i Glwb Pêl-droed Penrhyn-coch. Dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Croesi Cleddyfau

Llongyfarchiadau i Harry Toland, Eglwysfach, ar ei lwyddiant ym mhencampwriaeth cleddyfa yn Nhoronto, Canada, yn ystod yr haf. Harry oedd capten tîm Cymru yn y gystadleuaeth i ffenswyr hŷn, gan gystadlu yn erbyn goreuon gwledydd eraill y Gymanwlad. Llwyddodd y tîm i gipio'r fedal efydd ac enillodd Harry fedalau arian ac efydd fel unigolyn.



Llyfrau Brown sy'n Wyrdd!

Mae cwmni Atebol o Dalybont newydd gyhoeddi llyfrau sy'n hollol wyrdd! Mae cyfres 'Olion Traed Bach' yn gyfres o lyfrau sydd wedi'u cynhyrchu yn gyfan gwbl o ddeunyddiau cynaliadwy. Bwriad y gyfres ydy rhoi cyfle i blant bach i ddeall mwy am eu hamgylchedd. Mae'r llyfrau gweithgaredd yn cynnwys **Pwy sy'n chwifio ei adenydd yn y Fforest?**, **Pwy sy'n cloddio yn yr Ardd?**, **Beth sy'n wyllt yn y Goodwig Law?** a **Pwy sy'n mwynhau yn y Pwll Dŵr?** Mae Olion Traed Bach yn edrych ar sut ydym ni'n peryglu ein hamgylchedd a sut y gallwn ni helpu i warchod ein hamgylchedd bregus. Mae cloriau'r llyfrau wedi'u paratoi o fwydion coed sy'n cael eu tyfu mewn fforestydd cynaliadwy. Mae'r tudalennau lliwio a gweithgareddau wedi'u cynhyrchu'n gyfan gwbl o bapur sydd wedi'i ailgylchu. Does dim amheuaeth mae'r llyfrau brown yma yn wyrdd, wyrdd!

James Memorials

Am
**GOEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bampffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru – Ceredigion 2010

Fel y gwyddoch mae'r Eisteddfod yn dod i Geredigion yn 2010 ac rydym yn edrych am leoliadau addas i'w chynnal.

Yr anghenion arferol ar gyfer lleoliad yr Eisteddfod yw:

- Tua 75 acer o dir cymharol wastad a chadarn, mewn un parcel heb fod yn rhy glaiog (fel na all draenio)
- Bydd angen meddiant o'r tir o ganol Ebrill i'r Maes ei hun a chanol Mai i'r gweddill
- Trosglwyddir y tir yn ôl – 2-3 wythnos ar ôl yr Eisteddfod
- O fewn pellter hwylus i dref, i briffordd ac i gyflenwad dŵr a sustem garffosiaeth
- Yn ddelfrydol y lleoliad cyfan mewn un perchnogaeth

Os oes gwybodaeth gennych am leoliad allai ateb y gofynion uchod neu os ydych yn ymwybodol am leoliad fyddai'n bosib i'r Eisteddfod ystyried cysylltwch â: Sheelagh Edwards, Trefnydd, Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST neu E-bost: Sheelagh@urdd.org erbyn dydd Gwener, 5 Hydref 2007.

Yn gywir
Dylan Davies
Cadeirydd Pwyllgor Safle



Cofio Steven

Daeth tyrfa o chwaraewyr a chefnogwyr ynghyd yn y Llew Du yn ystod yr haf i gystadlu yn Nhwrnament Coffa Ddartiau Steven Southgate.

Cynhaliwyd y twrnament am y drydedd flwyddyn eleni gyda ffrindiau a theulu Steven yn dod ynghyd i'w goffhai a chodi arian at achosion da.

Eleni aeth y £400 a godwyd i ganolfan Tir y Gamig ger Caerfyrddin lle mae Brian, mab Ron a Linda Roberts, Talybont, yn treulio amser.

Ymhlith y chwaraewyr eleni oedd Sion, Dafydd a Ffion, sef plant Steven. Cafodd Ffion lwyddiant yn y gystadleuaeth gan ddod yn fuddugol yng nghategori'r merched a phlant.

Cyfranwyd y gwobrau raffl gan Anthony Southgate a'r wobwr gyntaf, sef set rasio ceir Scaeletrix yn roddedig gan Argos.

Hoffai Bob a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth parod ac i Mark a Vicky am eu croeso twymgalon yn y Llew Du.

Dynion: 1. Iori Jones, 2. Mark Ebeneser, 3. John Southgate, 4. Ron Roberts

Merched a phlant: 1. Ffion Southgate, 2. Sue Hopkins, 3. Hefin Hopkins, 4. Cath Jones.

Cymorth Canser Macmillan

Yn ystod wythnos olaf yng Ngorffennaf bu Mrs Eirlys Jones a Mrs Tegwen Jones yn casglu o ddrws i ddrws yn y pentref a'r ardal gyfagos er budd yr elusen uchod. Cawsant groeso ymhob man ac maent yn mynegi'u diolch i bawb am eu parodrwydd a'u haelioni wrth gyfrannu at elusen mor deilwng. Pleser yw cyhoeddi i dderbyniadau'r casgliadau yn y cylch yma gyrraedd y swm anrhydeddus iawn o £262.52.

Pencampwr golff

Llongyfarchiadau i Irfon Evans, Elgar House, Talybont, ar ennill tarian KBI mewn cystadleuaeth ar gwrs golff Borth ac Ynyslas ar 9 Medi. Llwyddodd Irfon i ennill y gystadleuaeth gyda sgor o 62 net. Cyflwynwyd y darian ar gyfer y gystadlueth hon gan Mr Rob Mair, Eglwys-fach.



Mark a Vicky Joseph a'u mab Ioan

Y Llew Du

Newyddion da i Dalybont yw gweld y Llew Du nol yn nwylo cwpwl lleol o'r ardal, am y tro cyntaf ers hydoedd.

Mae Mark a Vicky Joseph wedi bod yn Llew Du ers cwpwl o fisoedd bellach ac maent wrth eu boddau yno ac wedi mwynhau haf llwyddiannus. "Mae'r gwaharddiad ar smygu wedi gwneud gwahaniaeth positif iawn," meddai Mark. Yn lle colli cwsmeriaid, mae wedi tynnu teuluoedd a phlant i mewn ac rydym yn bwriadu darparu lle arbennig i blant yn y cefn." Mae Ioan, sy'n ddyflwydd oed, wrth ei fodd yn diddanu'r cwsmeriaid ac yn eu tynnu allan i chwarae ar y patshyn glas. Gwelir ef yn rheoli ei deyrnas o stol yn bar weithiau hefyd, yn yfed sudd!

Maent hefyd yn cynnal boreuau coffi i'r henoed a chinio i Age Concern bob pythefnos, ac mae digwyddiadau Clwb Nos Wener ar fin ailgychwyn ar gyfer tymor y gaeaf.

Dymunwn bob lwc i'r teulu - mae un peth yn sicr, cewch groeso cynnes heb ei ail yn y Llew Du unwaith yn rhagor.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

CHWARAEON

Eilyddion yn Rhagori



Eilyddion Tal-y-bont cyn y gêm yn erbyn y Llyfrgell Gen.

Mae tim pêl-droed Tal-y-bont wedi cael dechrau trychinebus i'r tymor newydd yng nghyngair Cambrian Tyres Aberystwyth, ond nid felly yr ail dîm. Chwaraewyd dwy gêm anodd oddi cartref gan yr Eilyddion ac maent yn parhau'n ddiuro. Mewn gêm gyffrous oddi cartref yn erbyn Trawsgoed rhannwyd yr wyth gôl a sgoriwyd yn gyfartal rhwng y ddau dîm ac yr oedd Tal-y-bont yn fodlon iawn i gipio pwynt gwerthfawr. Ar 1 Medi chwaraewyd yn erbyn tîm newydd y Llyfrgell Gen. Cael a chael oedd hi yn yr hanner cyntaf ond wedi'r egwyl roedd cyflymder blaenwyr Tal-y-bont yn creu cyfleon, a manteisiwyd ar ddau ohonynt gan James Clarke a Carl Jones. Rhoddodd y Llyfrgell Gen bwysau ar amddiffyn Tal-y-bont yn yr ugain munud olaf ond safodd y bechgyn yn gadarn, gan sicrhau'r fuddugoliaeth o 2-0.

Byddai'r tim cyntaf yn fodlon iawn a sgôr felly ond collwyd y bedair gêm gyntaf, yn bennaf oherwydd amddiffyn simsan. Collwyd y gêm gyntaf yn erbyn y Bont o saith gôl i ddwy ac yna yn Llanrhystud llwyddodd y blaenwyr i sgorio pedair gôl ond ildwyd pump. Collwyd yn drwm hefyd yn erbyn ail dîm Penrhyncoch. Ildwyd pedair gôl, gyda Mike Karas yn sgorio unig gôl Tal-y-bont. Methwyd a sgorio yn erbyn eilyddion Tywyn/Bryncrug gyda'r tîm crrref yn ennill yn rhwydd o bedair gôl i ddim. Dechrau siomedig felly i'r tymor.

Ar ddiwedd y tymor a fydd e'n bosibl i'r Eilyddion ennill dyrchafiad i'r Adran gyntaf ar tim cyntaf syrthio i'r ail Adran?!



Dal dy dir! Amddiffyn cadarn gan Eilyddion Tal-y-bont. (llun drwy garedigrwydd Scott Waby)



Tymor anodd i Gricedwyr Tal-y-Bont

Mae pob tim chwaraeon yn profi cyfnodau o law a hindda. Wedi sawl haf hirfelyn tesog, daeth rhai cymylau i ffurfafen Clwb Criced Tal-y-bont yn 2007, ac nid y lleiaf o'r rhain oedd y tywydd ei hun.

Dioddefodd y tîm min-nos, sy'n chwarae criced hwyliog ac anffurfiol ar arddull 20/20, yn waeth na neb, gan gwblhau pedair gêm gyngair yn unig. Cafwyd gêm gyfartal gofiadwy yn erbyn yr hen elynion o Benrhyn-coch, ond gyda wythnosau yn pasio rhwng gemau, roedd yn anodd iawn i'r bechgyn, a'u capten newydd Rhydwen Mitchell, i gynnal unrhyw fath o fomentwm.

Aeth pethau rhywfaint yn well i'r tîm ieuencid, a orffennodd yn eu safle uchaf ers cychwyn y tîm, tua canol yr ail adran. Cafwyd un gem arbennig o nodedig, yn erbyn myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, pan darodd hyfforddwr y tîm, Matthew Willis o Daliesin, ergyd nerthol am 6 yn y belawd olaf i gipio buddugoliaeth annisgwyl. Serenodd sawl cricedwr ifanc, megis y capten Robbie Taylor, a braf oedd gweld rhai o'r cyn-chwaraewyr sydd wedi gadael yr ardal i fynd i'r coleg, fel Rhodri Griffiths a Jon Lamb, yn dychwelyd i chwarae yn ystod yr haf.

Chwaraeodd y bechgyn ifanc ran flaenllaw yn hynt a helynt y tîm cyntaf hefyd. Tymor gweddol a gafwyd, gan orffen tua canol adran gyntaf Cyngair y Gorllewin, ond serenodd y brodyr McLean, sydd wedi symud o Langynfelyn i Bonterwyd, ond sy'n dal yn driv i'r tîm lleol. Datblygodd Chris, y brawd hynaf, yn fowliwr cyflym defnyddiol iawn, sy'n medru achosi digon o drafferthion i fatwyr profiadol, tra fod ei frawd iau, Dan, yn dipyn o 'all-rounder'. Gwellodd ei fatio yn syfrdanol yn ystod y tymor, a chafodd nifer o wicedi gyda'i fowlio troell cyfrwys yn arddull Shane Warne. Da hefyd oedd gweld cyfraniadau calonog gan fab i un o hoelion wyth y clwb yn y gorffennol, sef David Evershed, mab Jack. Cafodd 'Shed Bach' nifer o wicedi, a chyfranodd y tri ifanc yn helaeth at uchafbwynt y tymor, sef Cwpan Canolbarth Cymru. Cafwyd buddugoliaeth wych yn erbyn Llanfair ym Muallt, gyda'r capten Jim Vaughan yn taro cant, ac mi allai canlyniad y rownd gyn-derfynol yn erbyn Dolgellau fod wedi mynd y ffordd arall yn rhwydd.

Er gwaetha'r uchafbwynt yma, fodd bynnag, tymor anodd oedd hi ar ac oddi ar y cae, a hithau'n ben-blwydd y clwb yn 25. Oherwydd anafiadau (megis i ben-glin Simon Lloyd Williams) ac amryw resymau eraill, disgynnodd y baich o gynnal y clwb ar ychydig iawn o unigolion. Wedi dweud hyn, mae perfformiadau'r ieuencid yn cynnig gobaith am ddyfodol disglair, felly gyda dogn ychwanegol o ymroddiad a threfn, gall y clwb gyrraedd yr uchelfannau unwaith eto. Bydd sesiynau ymarfer yn cychwyn yn y gwanwyn, ac estynir croeso cynnes iawn i aelodau newydd. Daw mwy o fanylion maes o law!

Owen Roberts

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.